

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants

# Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli

## Ardal Gadwraeth

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 1.0 Cyflwyniad | 2 |
| 2.0 Deall y Safle | 5 |
| 3.0 Datblygiad Hanesyddol | 7 |
| 4.0 Dadansoddiad Gofodol | 12 |
| 5.0 Cymeriad a Golwg | 24 |
| 6.0 Dadansoddiad o'r Adeiladau | 34 |
| 7.0 Arwyddocâd | 35 |
| 8.0 Problemau, Bygythiadau, a Chynigion o Safbwynt Rheoli | 38 |
| 9.0 Cyfleoedd | 52 |
| Atodiadau | 55 |
| Atodiad I: Llyfryddiaeth | 56 |
| Atodiad II: Geirfa | 57 |
| Atodiad III: Mapiau | 59 |
| Atodiad IV: Adolygiad Ffiniau | 64 |
| Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cysylltiedig | 68 |


UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

CANOLFAN TYWI
TYWI CENTRE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council


Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Thîm Treftadaeth Adeiledig Cyngor Sir Caerfyrddin yn:

BHConsultations@carmarthenshire.gov.uk


*Cyfieithiwyd yr adroddiad hwn gan drydydd parti, ac nid oes gan Donald Insall Associates unrhyw gyfrifoldeb drosto.*


Mae'r adroddiad hwn a'r holl hawliau eiddo deallusol oddi mewn iddo ac sy'n deillio ohono yn eiddo i Donald Insall Associates neu'r cleient neu dan drwydded iddynt. Ni ellir atgynhyrchu naill ai'r adroddiad cyfan hwn neu unrhyw ran ohono, neu unrhyw luniad, cynllun neu ddogfen arall neu unrhyw wybodaeth a gynhwysir oddi mewn iddo mewn unrhyw ffurf, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Donald Insall Associates neu'r cleient, fel y bo'n briodol. O ran yr holl ddeunydd y mae'r hawliau eiddo deallusol wedi eu trwyddedu ynddynt i DIA neu'r cleient, ac mae'r cyfryw hawliau'n perthyn i drydydd partïon, ni ellir eu cyhoeddi neu eu hatgynhyrchu o gwbl mewn unrhyw ffurf, a dylid gwneud unrhyw gais am ganiatâd ar gyfer defnyddio'r cyfryw ddeunydd i'w gyhoeddi neu ei atgynhyrchu yn uniongyrchol i berchennog yr hawliau eiddo deallusol a geir ynddynt.

## Crynodeb Gweithredol

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Cydweli ym 1972. Erbyn hyn, mae'n briodol ac yn angenrheidiol pwyso a mesur arwyddocâd yr ardal hon, ynghyd ag ystyried p'un a yw'r ffiniau presennol yn briodol, a llunio dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain y gwaith o reoli, diogelu a gwella'r ardal at y dyfodol. Dyna nod y ddogfen hon.

Ceir sawl haen o hanes yn yr ardal, sy'n deillio o'r anheddiad Normanaidd, hyd at ei ddatblygu yn y 19eg Ganrif. Gadawodd yr esblygiad hanesyddol hwn etifeddiaeth o nodweddion o ddiddordeb a chymeriad pensaernïol, y mae angen eu diogelu neu wella. Ystyrir mai'r canlynol yw'r nodweddion allweddol sydd o arwyddocâd yn yr ardal:

1. Castell Cydweli ac Eglwys y Santes Fair o ran bod y ddau adeiledd yn arwyddocaol iawn
2. Yr hen dref a'r dref newydd, a phatrwm datblygu hanesyddol y strydoedd sy'n goroesi
3. Lleoliad sawl adeilad ac adeiledd sydd o arwyddocâd hanesyddol, gan gynnwys Neuadd y Dref, Tŷ Melin-y-Castell, a Chapel Sul
4. Ei dopograffi a'i leoliad ar hyd yr afon sy'n cynnig golygfeydd sy'n ymestyn ymhell i mewn i'r Ardal Gadwraeth, ynghyd ag o gyfeiriad yr ardal ac oddi mewn iddi

Penderfynir y dylai statws yr ardal fel ardal gadwraeth barhau, ond y dylid gwneud tri newid i'r ffin i adlewyrchu ei chyflwr presennol ac i gynnwys ardaloedd a anwybyddwyd yn flaenorol ond sy'n arwyddocaol.


1


2


3


4

# 1.0 Cyflwyniad

### 1.1 Pwrpas a Chwmpas yr Adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Donald Insall Associates (Insall) mewn ymateb i frîff a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) i baratoi Gwerthusiad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth ar gyfer Ardal Gadwraeth Cydweli.

Ariannwyd yr adroddiad trwy grant gan y Gronfa Adfywio Cymunedol. Nod y prosiect yw astudio ac asesu'r Ardal Gadwraeth bresennol er mwyn deall a mynegi'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig, ynghyd ag ystyried p'un a yw'r ffiniau presennol yn briodol, ac i lunio dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain gwaith rheoli, cynnal a datblygu'r ardal at y dyfodol. Y bwriad yw y caiff y ddogfen hon ei defnyddio gan berchnogion adeiladau sy'n dymuno ymgymryd â gwaith ar eu heiddo, ynghyd â gan benseiri a datblygwyr wrth ystyried gwneud newidiadau i adeiladau presennol, a gan staff yr Awdurdod Lleol i'w cynorthwyo i ddod i benderfyniadau.

Lluniwyd yr adroddiad mewn 4 rhan:

Deall yr ardal: Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r ardal, ei datblygiad hanesyddol a'i harwyddocâd.

Gwerthusiad o'r Safle: Mae hyn yn nodi elfennau allweddol yr Ardal Gadwraeth a'r modd y maent yn cyfrannu at ei chymeriad, ei golwg a'i harwyddocâd.

Problemau, bygythiadau a rheolaeth: Mae'r adroddiad yn parhau gyda sylwadau yng nghyswllt problemau a bygythiadau penodol, ac yn nodi cyfres o egwyddorion i helpu i arwain datblygiadau at y dyfodol wrth sicrhau bod yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig yn yr ardal yn cael ei ddiogelu, a lle'n bosibl, ei wella.

Cyfleoedd: Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar gyfleoedd a nodwyd a fydd yn llywio adran derfynol yr adroddiad.

### 1.2 Diffinio Ardaloedd Cadwraeth

Mae ardaloedd cadwraeth yn 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y byddai'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu olwg'.

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn rhannau amlwg o'r amgylchedd hanesyddol a ddynodir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol am eu diddordeb arbennig o safbwynt pensaernïol neu hanesyddol. Gallai diddordeb pensaernïol gynnwys enghraifft dda o fath penodol o anheddiad, cynllunio trefol, neu grŵp o adeiladau ag iddynt arddull sy'n nodweddiadol o'r rhanbarth neu'r ardal leol, neu sydd o ansawdd uchel o ran pensaernïaeth. Mae diddordeb hanesyddol yn gysylltiedig ag esblygiad hanesyddol rhywle, neu gyfnod arbennig. Gall fod yn gysylltiedig â mudiadau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol, fel tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archeolegol, bensaernïol neu dopograffig o darddiad datblygiad, a phrif gyfnodau'r datblygiad hwnnw, sydd wedi goroesi'n arbennig o dda. Mynegir cymeriad trwy bethau fel arddulliau adeiladau, deunyddiau, cynlluniau strydoedd, defnydd tir a chyfnodau datblygu.

O fewn y system gynllunio, caiff ceisiadau am newid o fewn yr Ardal Gadwraeth eu hasesu i ddeall effaith bosibl y datblygiad ar arwyddocâd. Mae arwyddocâd yn un o'r egwyddorion arweiniol sy'n rhedeg trwy Polisi Cynllunio Cymru 2021 (PCC). Gall hyn fod o safbwynt arwyddocâd archaeolegol, pensaernïol, artistig neu hanesyddol, a gall ddeillio nid yn unig o bresenoldeb ffisegol rhywbeth, ond hefyd o'i leoliad.

Gosodir rheolaethau rheoliadol ar rai mathau o waith o fewn Ardaloedd Cadwraeth, gan gynnwys dymchwel, gwaith yn ymwneud â choed, a hysbysebion. Mae angen asesu pob penderfyniad cynllunio yn erbyn arwyddocâd yr ardal i sicrhau y caiff ei gynnal a'i wella os yn bosibl.

Mae'r ddogfen hon yn nodi arwyddocâd a chymeriad yr ardal i gynorthwyo'r rheiny sy'n ymgeisio i wneud newidiadau, neu sy'n gwneud penderfyniadau, i ddeall y modd y gall cynigion effeithio hyn, ac i benderfynu p'un a yw hyn yn golygu y bydd unrhyw newid yn gadarnhaol neu'n negyddol.

### 1.3 Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cysylltiedig

Gosodir y darpariaethau allweddol ar gyfer dynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth mewn deddfwriaeth, a pholisïau a chanllawiau cynllunio'r llywodraeth. Maent yn cynnwys:

Y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, Chwefror, 2021

Nodyn Cyngor Technegol Polisi Cynllunio Cymru 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru Medi, 2021

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill, 2021

Ceir crynodeb a dolennau i'r dogfennau hyn mewn atodiad i'r ddogfen hon.

## 1.4 Datganiad Dull

Ymgymerwyd â'r canlynol wrth baratoi ar gyfer yr adroddiad hwn:

*1. Adolygiad o wybodaeth sy'n bodoli eisoes*


Cyfeiriwyd at nifer o ffynonellau er mwyn deall yr hyn sydd o ddiddordeb yn yr ardal o safbwynt hanesyddol a phensaernïol, gan gynnwys dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi, cofnodion cynllunio, canllawiau mabwysiedig a rhai sy'n cael eu datblygu, ynghyd â deddfwriaeth ac adnoddau ar-lein.

*2. Casglu Gwybodaeth*

Cynhaliwyd ymweliadau safle gan Insalls yn Chwefror a Mawrth 2022 i gynnal dadansoddiad adeiladwaith a gofodol. Ystyriwyd adeiladau a safleoedd o safbwynt tir y cyhoedd, ac ni chawsant eu harchwilio'n fewnol.

*3. Ymgysylltu â'r Gymuned*

Un o nodau allweddol y prosiect yw deall a chyfleu yn glir yr hyn y mae'r gymuned leol yn ei werthfawrogi am yr ardal. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid cymunedol a staff perthnasol o fewn y Cyngor wrth ddrafftio'r ddogfen hon, ac mae hyn wedi helpu i ffurfio'r casgliadau y daethpwyd iddynt o fewn y ddogfen. Dylid ystyried y ddogfen hon fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth, ac fe'i rhennir ymhellach â rhanddeiliaid cymunedol perthnasol. Rydym yn croesawu adborth i ddeall barnau lleol ynghylch gwerth nodweddion y treflun, ac o ran problemau a chyfleoedd.




Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli

## 2.0 Deall y Safle

### 2.1 Crynodeb o Arwyddocâd a Chymeriad

Ceir crynodeb isod o nodweddion allweddol yr ardal ac eitemau o arwyddocâd (ceir rhestr ehangach yn adran 7).

- Patrwm strydoedd hanesyddol y mae llawer ohono wedi goroesi o'r dref gaerog ganoloesol, ynghyd â'r ehangiad dilynol i'r de o'r afon
- Dau batrwm amlwg o symudiad a datblygiad ar sail hynny a geir yn yr hen dref a'r dref newydd
- Cryn botensial o safbwynt archaeolegol
- Mae'n cynnwys heneb gofrestredig Castell Cydweli
- Eglwys y Santes Fair, yr eglwys blwyf fwyaf yn Ne Orllewin Cymru
- Cysylltiadau â'r chwyldro diwydiannol a welwyd ledled De Orllewin Cymru yn y 19eg Ganrif
- Cyfres o olygfeydd arwyddocaol i mewn i'r ardal, o gyfeiriad yr ardal a ledled yr ardal oherwydd ei thopograffi a'i lleoliad
- Adeiladau arwyddocaol o safbwynt lleol a chenedlaethol
- Ffiniau hanesyddol sy'n goroesi, sy'n cynnwys metelwaith a rwbel
- Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig
- Sawl cysylltiad â digwyddiadau a phobl nodedig




Porthdy Castell Cydweli



Stryd y Bont i gyfeiriad y de

### 2.2 Lleoliad

Tref yw Cydweli a leolir tua 10 milltir i'r gorllewin o Lanelli yn Ne Orllewin Cymru ar afon Gwendraeth Fach, sydd tua un cilomedr o le mae'n llifo i mewn i Fae Caerfyrddin. Mae'r Ardal Gadwraeth yn ffurfio craidd hanesyddol y dref, ac yn cynnwys Castell Cydweli ac Eglwys y Santes Fair, sef canolbwyntiau'r hen dref a'r dref newydd ar adeg sefydlu'r dref yn y 12fed Ganrif. Fel y cyfryw, sefydlir ffurf yr Ardal Gadwraeth yn bennaf gan ei chynllun hanesyddol, y mae llawer ohono'n dal i fod fwy neu lai fel yr oedd. Mae'n ffurfio prif ffordd drwodd o'r de i'r gogledd gan groesi'r afon, gyda'r adeiladau, at ei gilydd, yn wynebu'r strydoedd. Mae dros 50% o'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys y corstir sy'n gorwedd ar lannau gogleddol a deheuol yr afon.

### 2.3 Topograffi a lleoliad

Lleolir y dref ar afon Gwendraeth Fach. Mae'r castell ar ben yr aber ar y pwynt uchaf o fewn y dref, gyda'r codiad serth o'r afon yn ffurfio amddiffynfa naturiol tua'r de. Saif Eglwys y Santes Fair a'r strydoedd o'i hamgylch ar dir is, i'r de o'r afon. Mae'r rhan fwyaf o'r Ardal Gadwraeth yn gymharol wastad, ond gyda golygfeydd draw ymhell rhwng y naill ochr a'r llall o'r afon, yn ogystal ag ar ei hyd, sy'n amlwg trwy'r bylchau rhwng yr adeiladau, o gyfeiriad y bont a'r castell. Mae'r cyfuniad o ffyrdd hir a syth, ynghyd â'r troadau sy'n mynd o gwmpas y castell, yn creu cymysgedd o olygfeydd pell, yn ogystal â golygfeydd agosach i'r naill ochr, trwy'r bylchau yn llinell yr adeiladau.



## 3.0 Datblygiad Hanesyddol

### 12fed Ganrif

Ar adeg ailsefydlu rheolaeth y Normaniaid gan yr Esgob Roger, ar ran Harri'r Iaf, yn ardal Cydweli ym 1106, fe aeth hwnnw ati i greu arglwyddiaeth o'r tair uned weinyddol Gymreig frodorol: Cydweli, Iscennen a Charnwyllion. Sefydlwyd Castell a Phriordy Cydweli yn fuan wedyn. Codwyd y castell yn aber Gwendraeth Fach, gan ffurfio un o gyfres o gadarnleoedd Normanaidd i ddiogelu De Cymru a rheoli'r afonydd yr oedd y ffordd i'r gorllewin yn eu croesi. Daeth y priordy i fod yn gell o abaty Sherborne yr oedd yn debygol ei bod yn cymryd lle adeiledd crefyddol cynharach a oedd wedi ei gysegru i Sant Cadog. Roedd y priordy yn un o'r celloedd Benedictaidd lleiaf yng Nghymru'r Canol Oesoedd, ac mae ei henw'n dystiolaeth o symudiad i ffwrdd o'r seintiau Celtaidd Cymreig i Santes Fair y Forwyn, a oedd yn un o ffefrynnau'r Normaniaid. Fel y cyfryw, ffurfiwyd Cydweli o dair rhan benodol: y castell i'r gogledd o'r afon, Priordy Cydweli ar ochr ddeheuol yr afon ('yr hen dref') a'r dref o fewn ardal amddiffynedig i'r de o'r castell, yn lle mae Stryd y Castell a Heol y Bailey bellach yn sefyll ('y dref newydd').

Mae astudiaeth ddiweddar gan RCAHMW yn codi'r posibilrwydd y bu caer Rufeinig yng Nghydweli, a guddiwyd wrth adeiladu'r castell. Dilynwyd ôl y ffordd Rufeinig orllewinol o Gaerfyrddin i Gydweli. Mewnfudwyr, masnachwyr ac amaethwyr Seisnig, Ffleminaidd, a Ffrengig oedd y trefolion cyntaf, gyda'r Cymry'n nodedig oherwydd eu habsenoldeb. Roedd yr ardaloedd mawr o laswelltir o amgylch y dref yn cynnal masnach wlân fawr trwy gydol y Canol Oesoedd, gyda'i lleoliad arfordirol yn darparu cysylltiadau masnach ledled De Cymru, Bryste ac Iwerddon. Mae'n debygol mai adeiledd mwnt a beili pren oedd y castell cyntaf, gyda ffos a rhagfuriau hanner-cylchog. O fewn gwrthgloddiau amddiffynnol y dref mae'n debygol y cafwyd cyfres o leiniau o dir bwrdais a oedd yn dilyn cynllun stryd tebyg, fel y gellir ei weld heddiw. Ceir pyrth yn lle mae'r porthdy presennol yn dal i sefyll, ynghyd â phorth arall yn lle mae Ffordd y Castell yn ymuno â Stryd Newydd.

Ar ôl marwolaeth Harri'r Iaf ym 1135, codwyd byddin i yrru'r Saeson ymaith o Dde Cymru, dan arweiniad Gruffydd ap Rhys. Wrth i Gruffydd ap Rhys deithio i geisio milwyr ychwanegol, penderfynodd Arglwydd Cydweli, Maurice de Londres, ymosod yn ôl. Daeth ei wraig, Gwenllian, â'i byddinoedd ynghyd, ac arweiniodd y fyddin Gymreig i ymosod ar y dref a'r castell ym Maes Gwenllian, sef lle sydd bellach yn dwyn ei henw. Er y cafodd ei gorchfygu, fe'i cofir hyd heddiw fel arwres Cydweli, a saif cerflun ohoni yn y castell.

### 13eg – 14eg Ganrif

Roedd y castell yn dal i fod yn nwylo'r Saeson trwy'r rhan helaeth o'r 13eg a'r 14eg Ganrif. Ond amharwyd ar dwf y dref yn sgil ymosodiadau parhaus, gan gynnwys hynny ym 1258 pan gafodd ei dinistrio, er na chipiwyd y castell ei hun. Ym 1223, llosgwyd eglwys y priordy.

Ym 1280, rhoddwyd trwydded i'r dref gael ei hamgáu â muriau, yn lle'r amddiffynfeydd pridd a phren. Ailgodwyd y castell mewn cerrig gan y teulu Chaworth, mae rhannau ohono'n goroesi yn yr adfeilion cerrig. Mae'n debygol y lleolwyd melin ar safle presennol Tŷ Melin-y-Castell sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif, ar y tir isel rhwng y dref a'r afon. Ym 1298, pasiwyd Cydweli i'r teulu Lancaster, pryd y defnyddiwyd y dref fwyaf fel canolfan




Cynllun o'r dref y tybir ei fod o'r 12fed Ganrif

weinyddol. Roedd hyn yn lleihau rôl filwrol a domestig y castell, gyda'r sylw'n troi at y ffermydd, y goedwig a'r melinau a allai godi arian ar gyfer Dugiaeth Caerhirfryn.

Rhoddwyd ei siarter gyntaf i'r dref ym 1308, a gadarnhawyd ym 1357, gyda'r hawl i gynnal dwy farchnad yr wythnos ac un ffair flynyddol. Mae'n bosibl y lleolwyd y farchnad ar gyffordd Helo Fair a Stryd y Bont, yn lle ceir y sgwâr cyhoeddus erbyn hyn. O ganlyniad, yn ystod y 14eg Ganrif, ffynnodd y dref ac ehangodd y tu hwnt i'w muriau, ar hyd yr hyn a elwir bellach yn Heol y Fferi, Heol Ddŵr a Stryd y Bont, a daeth i fod yn un o'r canolfannau masnachu a masnachol prysuraf yn Ne Cymru. Efallai y bu'r twf hwn er anfantais i'r dref o fewn muriau'r castell, gan y cofnodwyd tiroedd bwrdais anghyfannedd ym 1401. Roedd gan y priordy hefyd anheddiad bach o denantiaid y tu allan i amddiffynfeydd y dref, gydag Eglwys y Santes Fair wedi'i hadeiladu tua 1320 fel eglwys y plwyf. Roedd hyn yn arwydd pellach ar yr adeg hon bod y sylw'n dechrau symud i ffwrdd o'r 'hen dref' i'r un newydd.

Mae cofeb gerfiedig ym mynwent Eglwys y Santes Fair yn darlunio cath ddu Cydweli, a welir ar yr Arfbais a'r Sêl Swyddogol. Ceir y rheiny sy'n credu mai'r gath oedd y creadur cyntaf a welwyd yn fyw ar ôl pla mawr 1349-51, ac mae felly'n symbol o achubiaeth a gwaredigaeth. Ystyriwyd y bu'r priordy bob amser yn gymharol dlawd, gyda dim ond un mynach yn bresennol ym 1377.

### 15^fed^ – 16^eg^ Ganrif


Dioddefodd y castell a'r dref ymosodiadau cyson yn ystod gwrthryfel Glyn Dŵr ym 1403-4, pryd y cafodd ei ddinistrio. Er y cryfhawyd amddiffynfeydd y castell a muriau'r dref, gan gynnwys creu'r porthdy presennol, ni welwyd yr 'hen dref' yn ail-ffynnu. Fe'i disgrifiwyd ym 1444, 'now in manner of waste and desolate for want of Burgesses there swelling' ac yn ôl disgrifiad John Leland yn y 1530au, roedd yn 'nere all desolated'.

Codwyd y bont a chanddi ddau fwa, a oedd yn cysylltu'r dref newydd a'r hen dref, yn y 14eg neu'r 15fed Ganrif, i gymryd lle adeiledd cynharach ac i ddilyn y ffordd ymlaen i Orllewin Cymru. Diddymwyd y priordy ym 1539, pryd y trosglwyddwyd y nawdd i'r goron.

### 17^eg^ – 18^fed^ Ganrif

Erbyn 1609, cofnodwyd bod y castell yn 'greately decayed and ruynated' gyda dim ond 3 o diroedd bwrdais, saith tenement ac wyth bwthyn o fewn waliau'r dref. Saif 136 o diroedd bwrdais ar hyd Heol y Fferi, Heol Ddŵr a Stryd y Bont, gydag wyth o diroedd bwrdais eraill ar Stryd y Sarn, a thri ohonynt ar Stryd y Santes Fair (sef Heol Fair erbyn hyn) ochr yn ochr â 28 o dai eraill. Fel y cyfryw, ymddengys bod y dref wedi symud ymlaen o'r 'hen dref' wrth ymyl y castell i'r 'dref newydd' i'r de o'r afon. Cadarnhawyd hyn ym 1574, pryd y codwyd neuadd ddinesig yn ei lleoliad presennol ar gornel Stryd y Sarn a Heol Fair.

Ym 1630, trosglwyddwyd Cydweli i ddwylo'r teulu Vaughan, ac ychydig iawn o ehangu a welwyd yn y dref yn ystod y 17eg a'r 18fed Ganrif. Fodd bynnag, roedd sawl adeilad ac adeiledd diwydiannol wedi helpu i gefnogi twf y dref yn y 19eg Ganrif, yn ystod y chwyldro diwydiannol. Roedd hyn yn cynnwys camlas 3 milltir o hyd, ynghyd â dociau a adeiladwyd gan Thomas Kymer



Cynllun o'r dref y tybir ei fod o'r 14eg Ganrif


i gysylltu ei byllau glo â'r arfordir. Ym 1737, adeiladwyd gwaith tunplat, ar safle hen efail yn fwy na thebyg, yr un cynharaf ond un a adeiladwyd yng Nghymru.

Roedd cynhyrchu tun, ac yn ddiweddarach, haearn, wedi parhau tan 1941, gyda'r adeiladau'n cael eu chwalu ym 1946 ac Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli'n cael ei datblygu ar ei safle.

### 19eg – 20fed Ganrif

Ffynnodd y dref yn ystod y 19eg Ganrif gydag allforio glo o Wendraeth Fawr. Sefydlwyd pum gwaith brics ar wahân rhwng 1850 a 1900, a wasanaethwyd gan gilffyrdd a rheilffyrdd, a chynhyrchwyd brics a anfonwyd dros y byd i gyd. Roedd y marchnadoedd yn parhau ger Porth y Castell, gyda chynnal ffeiriau anifeiliaid ym mis Mai ac Awst, ynghyd â ffair Gwenllian ym mis Rhagfyr. I gefnogi hyn, codwyd lladd-dy i'r dwyrain o Eglwys y Drindod. Dengys map degwm ar gyfer Cydweli, o'r 19eg Ganrif, faint y dref ar yr adeg hon. At ei gilydd, mae'r ffiniau i'r gogledd o'r afon wedi'u cyfyngu i'r castell a'r tai i'r gorllewin iddo. Yn fras, mae'r ffin ddeheuol yn ymestyn i Stryd y Priordy i'r dwyrain, 'Hillfield Villas' i'r gorllewin a Maes Y Parc i'r de, gyda'r ardal wledig amgylchynol wedi'i rhannu'n gyfres o ddegymau mwy.


Dengys Mapiau'r Arolwg Ordnans (OS) o ddiwedd y 19eg Ganrif gynllun tebyg iawn i hynny y gallwn ei weld heddiw, gyda rhesi o adeiladau'n leinio'r naill ochr i Heol Fair, Stryd y Bont, 'Ditch Street' (Stryd Newydd erbyn hyn), ynghyd ag ambell adeilad ar wahân ar hyd Stryd y Castell a Heol y Bailey. Dengys gefail yng nghyffordd Stryd Newydd a Stryd y Bont. Lleolir safle Capel Sul yn 'Rumsey House' gynt, gyda gerddi wedi'u tirlunio rhwng



Troshaen Ffiniau Hanesyddol Cydweli 1888 (a atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

Stryd y Bont a Heol yr Orsaf. Lleolir swyddfa'r post oddi 'Frogman Street' (Heol yr Orsaf erbyn hyn). Yn y gyffordd rhwng Stryd y Bont, Stryd y Castell a Stryd Newydd, ceir cyfres o adeiladau y cawsant eu dymchwel bron yn llwyr erbyn dechrau'r 20fed Ganrif. Codwyd ysgol ar Stryd y Castell ym 1858, ar gyfer mudiad yr Ysgolion Brutanaidd, yn wrthwynebol i'r Ysgolion Cenedlaethol a noddwyd gan yr eglwys, ynghyd â thŷ i'r ysgolfeistr. Adeiladwyd neuadd y dref ym 1877 gan TWA Evans, a oedd hefyd yn Faer Cydweli. Roedd y llawr isaf yn gweithredu fel marchnad dan do, a'r llawr uchaf fel Neuadd y dref, a chynhwyswyd celloedd yr heddlu yno hefyd, ynghyd ag ystafell ddarllen. Ym 1884, gwnaed gwaith atgyweirio helaeth ar Eglwys y Santes Fair gan Middleton a Prothero o Cheltenham. Gosodwyd to newydd ar gorff yr eglwys, ynghyd â bedyddfaen, ac ychwanegwyd ffenestri newydd ar ei hochrau dwyreiniol a gorllewinol.

Ar ddechrau'r 20fed Ganrif, roedd y gwaith datblygu'n parhau ar hyd Heol yr Orsaf a Stryd y Priordy. Ym 1903, adeiladwyd gwaith brics helaeth, gydag o leiaf 20 o odynau'n cynhyrchu brics silica, gan Syr Alfred Stephens, a roddodd Barc Stephens i'r dref hefyd ym 1921. Daeth 'Rumsey House', a adeiladwyd ym 1862, gan TWA Evans unwaith eto, yn ddrwg-enwog ym 1920 am ei berchennog ar y pryd, a safodd ei brawf ac a gafwyd yn ddieuog o lofruddio ei wraig. Fe'i prynwyd wedyn ym 1923 gan y gynulleidfa Annibynnol, a oedd bryd hynny yn Heol y Fferi. Fe'i haddaswyd yn gapel ym 1924, gyda'r llawr gwaelod yn gweithredu fel ysgoldy, a'r lloriau uchaf fel y capel. Codwyd y gofgolofn ym 1924 hefyd.



Troshaen Ffiniau Hanesyddol Cydweli 1907 (a atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

Ym 1927, rhoddwyd adfeilion y castell o dan warchodaeth y wladwriaeth, ac fe'i cynhelir bellach gan Cadw, fel y mae porth y dref. Gwnaed gwaith cadwraeth ers yr adeg honno, gan gynnwys gwaith cloddio archaeolegol ym 1930 a 1931.

Ym 1932, dymchwelwyd yr olaf o'r anheddau o'r enw 'Priors House', y tybiwyd eu bod yn dyddio o'r Canol Oesoedd, a leolir i'r gorllewin o'r eglwys ar Stryd y Sarn, ac sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r hen briordy. Gallai'r tŷ fod wedi lletya'r mynachod a'u gweinyddion. Ym 1938, adeiladwyd RAF Pen-bre i'r de-orllewin o'r dref i gefnogi'r ymgyrch i amddiffyn Prydain, a daeth yn un o orsafoedd Brwydr Prydain. Fel un o'r prif dargedau ar gyfer awyrennau bomio'r Almaenwyr, fe gafodd Cydweli ei hun ei bomio ddwywaith, gydag un bom yn dinistrio tŷ ar Stryd y Priordy, ac un arall yn disgyn ar y gors.

Mae'r mwyafrif o'r adeiladau sydd i'w gweld heddiw yn dyddio o'r 19eg Ganrif, ond gyda thystiolaeth o'r lleiniau tir bwrdais cul blaenorol ar Heol Ddŵr, Heol y Fferi, Stryd Newydd, Stryd y Bont a Heol Fair. Nid oes unrhyw ran o'r priordy Benedictaidd yn goroesi uwchben y ddaear, ond credir y'i lleolwyd i'r dwyrain o'r eglwys. Yn ail hanner yr 20fed Ganrif, mae sawl datblygiad cyfoes wedi mewnlenwi rhannau o dir, gan gynnwys ar hyd Stryd y Castell, i'r de o'r gyffordd â Stryd y Bont a Stryd y Castell, ynghyd â maes parcio a grëwyd i'r gogledd-ddwyrain o'r bont. Er y codwyd tai modern yn lle'r adeiladau canoloesol oddi mewn i'r muriau, mae'n debygol fod llinell y ffyrdd presennol yn dilyn y cynllun gwreiddiol.



Troshaen Ffiniau Hanesyddol Cydweli 1948 (a atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

# 4.0 Dadansoddiad Gofodol

### 4.1 Golygfeydd i mewn i'r Ardal Gadwraeth, oddi mewn iddi, ac o gyfeiriad yr Ardal Gadwraeth

Dylai effaith datblygiadau arfaethedig gynnwys ystyriaeth o olygfeydd i mewn i'r Ardal Gadwraeth, oddi mewn iddi, ac o gyfeiriad yr Ardal Gadwraeth. Nodir y canlynol heb adael allan golygfannau eraill, a gellir eu gweld ar y map a ganlyn.

*Castell Cydweli*

Fel y gellir ei ddisgwyl efallai, mae'r castell yn dirnod amlwg trwy'r Ardal Gadwraeth gyfan oherwydd ei raddfa a'i leoliad ar yr afon. Mae hyn yn ein hatgoffa o bwysigrwydd y castell o ran ei rôl yn natblygiad y dref, ac mae'n rhan arwyddocaol o gymeriad yr ardal. Mae'r golygfeydd yn ôl tuag at y castell, o lan deheuol yr afon, o bwys arbennig, ond mae'r datblygiadau cyfoes o'u cwmpas wedi amharu arnynt.

*Eglwys y Santes Fair*

Er bod yr eglwys ei hun yn gymharol guddiedig o sawl golygfan, mae'r meindwr yn dirnod a welir yn gyson o bob cyfeiriad bron. Mae gan y castell a'r meindwr berthynas bwysig, â'r rheiny wedi'u lleoli ar y naill ochr i'r afon a'r llall, gyda'r ddau i'w gweld gyda'i gilydd o ymyl yr afon.

*Golygfeydd o'r Strydoedd*

Mae natur cymharol syth Stryd y Bont a Heol Fair yn creu golygfeydd di-dor yn y pellter ac yn golygu bod modd darllen nodweddion yr adeiladau gyda'i gilydd. Mewn cyferbyniad, ceir y strydoedd crymion, byrrach, ar ochr ogleddol yr afon, sydd at ei gilydd yn dilyn ffin yr hen dref a ffurfiwyd o gwmpas y castell. Mae adeiladau i'r de o'r afon yn dueddol o ddilyn ymyl y stryd, tra bo'r mwyafrif o'r rheiny a geir i gyfeiriad y gogledd yn rhai ar wahân, ac wedi'u lleoli o fewn eu safleoedd neu erddi eu hunain. Gallai newidiadau cynyddol ar raddfa lai, ynghyd â datblygiadau mawr ar hyd y ffyrdd, amharu ar y nodweddion hyn. Mae hyn i'w weld eisoes yn lle cyflwynwyd adeiladau mwy, nad ydynt yn dilyn patrwm y stryd neu nodweddion yr adeiladau o'u cwmpas. Gwelir hefyd cyfres o olygfeydd y ceir cipolwg arnynt rhwng adeiladau, ac yn lle nad oes adeiladau'n bodoli mwyach wrth ymyl y stryd, ar ben deheuol Stryd y Bont er enghraifft. Mae llwybrau'r castell a glannau'r afon yn cynnig golygfa fwy agored, yn ogystal â'r rheiny o'r bont.



Heol Fair i Stryd y Bont



Stryd y Bont i'r de



Heol y Castell i Ffordd Newydd

Nodir isod golygfeydd o bwys o ran strydoedd, heb adael rhai eraill allan:

Stryd y Castell i Heol y Castell

Heol y Bailey i Heol y Castell

Ffordd y Castell i Gastell Cydweli

Stryd y Bont i Stryd Newydd

Heol Fair i Heol y Priordy

Stryd y Bont i Heol yr Orsaf

Stryd y Bont i gyfeiriad y gogledd a'r de

**Meindyrau a Thyrau**

Mae meindyrau, tyrau a thalcennau uchel y dref yn darparu tirnodau pwysig a amlygir gan yr adeiladau is a'r golygfeydd agored ar hyd yr afon.

Gallai datblygiadau sy'n torri ar y golygfeydd hyn gael effaith negyddol ar yr ardal. Mae hyn yn cynnwys golygfeydd o:

Eglwys y Santes Fair

Castell Cydweli a'r Porthdy

Neuadd y Dref

Capel Sul

Eglwys y Drindod




Meindwr Eglwys y Santes Fair o Heol Fair

## Y dirwedd amgylchynol a mannau agored

Mae lleoliad y dref ar lannau'r afon yn darparu cyfres o olygfeydd panoramig ar ei hyd, yn ogystal â rhwng ei glannau gogleddol a deheuol, yn enwedig o safle'r castell, yn lle y gallwch weld yr Ardal Gadwraeth gyfan bron, ynghyd ag o gyfeiriad y bont. Mae'r golygfannau hyn yn caniatáu i chi weld cefn yr adeiladau sy'n wynebu Stryd y Bont a Heol Fair. Mewn cyferbyniad â hyn, ceir rhesi o adeiladau sy'n gorchuddio golygfeydd, ond gellir gweld cipolwg ar y golygfeydd hynny rhyngddynt. Ceir hefyd nifer o fannau agored, rhai gwyrdd a threfol, sy'n cynnig lleoedd i orffwys, ynghyd â golygfeydd tuag at allan. Er enghraifft, ceir y safle o amgylch Eglwys y Santes Fair, a'r sgwâr agored yng nghyffordd Heol yr Orsaf, sy'n cynnig golygfa lawn cymeriad o feindwr yr eglwys.

Hefyd, mae topograffi'r ardal yn darparu golygfeydd o'r dirwedd i'r gogledd o Stryd Newydd a Heol y Bailey.




| | | |
|---|---|---|
| Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli | Mannau gwyrdd cadarnhaol / wedi'u tirlunio / coed | Golygfeydd pwysig o'r dirwedd |
| Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau | Toeau arwyddocaol | Golygfeydd pwysig o'r stryd |
| Ardaloedd sy'n cynnig ymdeimlad o le | Y prif dirnod, adeiladau a strwythurau allweddol | Golygfeydd terfynedig |
| Ardaloedd sy'n cynnig naws gaeëdig | Meindwr | Golygfeydd allwyredig |

## 4.2 Prif Dirnodau ac Adeiladau Allweddol

Ceir 14 o adeiladau ac adeileddau rhestredig yn Ardal Gadwraeth Cydweli, sy'n dystiolaeth o ansawdd uchel ei phensaernïaeth, ynghyd â'r cysylltiadau a'r datblygiadau hanesyddol sy'n rhan hanfodol o'i chymeriad.

### Adeiladau ac Adeileddau Rhestredig

*Castell Cydweli*

Mae'r castell Normanaidd yn heneb gofrestredig ac wedi'i restru'n Radd I fel un o'r cestyll gorau yng Nghymru. Wedi'i sefydlu ym 1106 gan Esgob Caersallog, mae'r castell presennol yn dyddio o hanner olaf y 13eg Ganrif. Ceir yno borthdy â dau dwr, ward allanol hanner-cylchog, ward fewnol sgwâr gyda phedwar twr cornel, neuadd, capel a chegin. Mae adeilad y castell yn dangos pwysigrwydd hanesyddol Cydweli fel lleoliad strategol a masnachol, gyda'r dref bresennol yn datblygu o'i amgylch. Mae ei gynllun yn dal i ddylanwadu ar y modd y mae pobl yn gweld y dref ac yn symud o'i chwmpas, gydag amrywiaeth o olygfeydd i gyfeiriad y castell ac oddi yno yn nodwedd amlwg o'r rhan helaeth o'r Ardal Gadwraeth.



*Eglwys y Santes Fair*

Mae eglwys blwyf y Santes Fair yn adeilad rhestredig Gradd I. Tybir mai hon yw'r eglwys blwyf fwyaf yn Ne-orllewin Cymru, y mae ei meindwr yn dirnod adnabyddadwy ledled yr Ardal Gadwraeth, yn enwedig o gyfeiriad glan ogleddol yr afon. Mae'n debygol bod yr eglwys bresennol yn dyddio o tua 1320, gyda'r eglwys briordy Fenedictaidd, a sefydlwyd ym 1114, wedi'i llosgi ym 1223. Mae ei manylion Gothig yn nodedig hefyd, yn ogystal â'r safle o'i chwmpas, o safbwynt eu cyfraniad tuag at y treflun.



*Y Porthdy*

Adeiladwyd y porthdy ar ddechrau'r 14eg Ganrif fel y prif borth i mewn i'r dref gaerog o amgylch y castell. Mae'n dal i gyflawni'r swyddogaeth hon, gan sefyll ym mhen gorllewinol Stryd y Castell. Mae'n cynnig mynediad o Stryd y Bont, gan fframio golygfeydd i gyfeiriad y castell ac oddi yno. Mae'n adeilad rhestredig Gradd 2* ac yn heneb gofrestredig.



*Capel Sul*

Mae hwn yn adeilad rhestredig Gradd II am ei werth o ran y treflun. Lleolir y capel sylweddol, a ddyluniwyd mewn arddull Eidalaidd, ar ben Stryd y Bont, ac mae'n nodwedd o bwys arbennig wrth edrych arno o ben gogleddol y bont. Ond mae ei lawr uchaf yn dirnod hefyd, ymhlith toeau'r adeiladau a welir o'i gwmpas wrth deithio i'r gogledd i fyny Stryd y Bont. Mae ei fracedi consol dwfn i'r to, ynghyd â'i architrafau stwco yn ei wneud yn fwy amlwg fyth.



*'The Old Moat House'*

Wedi'i leoli'n gyfagos i'r castell, mae'r adeilad rhestredig Gradd II hwn yn un o'r tai hynaf sy'n goroesi o fewn yr anheddiad caerog canoloesol. A hwnnw bellach yn fwyty, mae'n llenwi llain gornel sylweddol rhwng Stryd y Castell a Heol y Castell, ac yn ychwanegu at nodweddion y castell a thu hwnt.



*Ysgol y Castell a Thŷ'r Ysgol*

Adeiladwyd yr adeilad rhestredig Gradd II hwn ym 1858, yn ôl dyluniadau gan David Davies o Lanelli ar gyfer Bwrdd Ysgolion Cydweli, fel rhan o'r Mudiad Ysgolion Brutanaidd, a oedd yn wrthwynebol i'r Ysgolion Cenedlaethol , a noddwyd gan y capel. Ymgorfforwyd tŷ'r ysgolfeistr hefyd o fewn y pen gorllewinol. Mae'r cyfuniad o rwbel â brics melyn yn llawn cymeriad, ochr yn ochr â'r toeau llechi serth a'i dalcennau , sy'n nodweddu'r golygfeydd o gyfeiriad de Stryd y Castell, gan edrych i gyfeiriad y castell.



*Cofgolofn y Rhyfel (y tu allan i'r Ardal Gadwraeth)*

A honno'n adeilad rhestredig Gradd II, ac wedi'i chodi ym 1924 yn ôl dyluniadau gan Glendinning Moxham o Abertawe, mae'r gofgolofn yn cynnwys cerflun marmor gwyn o filwr ar bedestal mawr o garreg Portland. Fe'i cysegrwyd er cof am y milwyr a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Amharwyd ar ei lleoliad braidd gan y datblygiadau cyfoes a'r gysgodfan fysiau sydd o'i chwmpas, ond mae'n dal i fod yn dirnod amlwg yn y stryd.



*Melin-y-Castell*

Adeiladwyd yr hen felin flawd hon, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, gan Benjamin Haselwood ym 1804, ar safle melin ganoloesol y soniwyd amdani gyntaf ym 1114.

Mae'n debygol fod ei lleoliad ar lannau isaf yr afon wedi manteisio ar y ffrydiau llanw i bweru peirianwaith y felin. A hithau wedi'i hadfer bellach fel siop hen ddodrefn, mae'n dal i fod yn dystiolaeth o ddatblygiad y dref yn y 19eg Ganrif fel canolbwynt ar gyfer diwydiant, yn ogystal â bod yn adeilad amlwg ar lannau'r afon.



*Pont Cydweli*

Credir bod y bont dros yr afon, a chanddi ddau fwa, wedi'i hadeiladu ar ddiwedd y 15fed Ganrif i gymryd lle'r strwythur gwreiddiol. Fe'i haddaswyd wedyn ym 1920-30, pryd y cafodd y gwaith rwbel wyneb carreg allanol a'r canllawiau eu hychwanegu. A honno'n cyfrannu at ddatblygiad y dref o safbwynt esthetig a strategol, mae'n cynnwys nifer o baentiadau a disgrifiadau o Gydweli trwy gydol ei hanes, ac yn dal i gynnig rhai o'r golygfeydd gorau o'r Ardal Gadwraeth. Mae'r bont wedi'i rhestru'n Radd II.



*Neuadd y Dref*

Mae neuadd y dref yn ffurfio bloc cornel mawr i Stryd y Bont a Heol Fair, ac mae'n ganolbwynt i olygfeydd o sawl stryd. Fe'i rhestrir yn Radd II, ac fe'i hadeiladwyd ym 1877 yn ôl dyluniadau gan TWA Evans, sef pensaer a Maer Cydweli, a roddodd ei wasanaeth am ddim. Cynhwyswyd marchnad ar y llawr isaf, gyda neuadd y dref ar y llawr cyntaf, ochr yn ochr â chelloedd yr heddlu ac ystafell ddarllen.



### Adeiladau ac adeileddau o bwys, nad ydynt yn rhestredig

Ni chafodd yr adeiladau a ganlyn eu rhestru'n statudol ond maent yn atgyfnerthu cymeriad yr ardal, yn darparu tirnod pwysig neu'n rhan o dreftadaeth Cydweli oherwydd eu harwyddocâd o safbwynt pensaernïol, hanesyddol neu archaeolegol, a chydnabyddir eu bod yn asedau unigryw o ran treftadaeth. Fel y cyfryw, cynigiwn y dylid eu cynnwys ar restr leol o adeiladau o werth. Ni fyddai hyn yn rhoi gwarchodaeth statudol i adeilad, ac ni fyddai angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwneud gwaith ar adeilad a restrir yn lleol, ond byddai'r diddordeb arbennig yn yr adeilad yn ystyriaeth berthnasol yn y broses ceisiadau cynllunio.

*Eglwys Fethodistaidd Seisnig y Drindod*

Adeiladwyd yr eglwys ym 1866 gan Jacob Chivers, sef perchennog Gwaith Tun Cydweli, a chwaraeodd ran allweddol mewn dod â chyflenwad dŵr i mewn i'r dref. Fel unigolyn crefyddol dros ben, ond nad oedd yn siarad Cymraeg, sefydlodd yr eglwys fel y gallai ef ei hun ac eraill addoli trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r meindwr yn ychwanegiad nodedig o fewn sawl golygfa, ac mae ei leoliad amlwg yn y fynedfa ogleddol i'r bont, yn ychwanegu, i raddau helaeth ac mewn modd cadarnhaol, at y golygfeydd tuag at Stryd y Bont, ac oddi yno.



*Capel Bedyddwyr Siloam*

Fe'i lleolir y tu allan i'r Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd, ond mae r tu cefn iddo a'i ochrau'n ffurfio rhan o'r ffin ogleddol. A hwnnw wedi'i adeiladu tua 1892, roedd y capel yn rhan o Undeb y Bedyddwyr Cymru, a sefydlwyd ym 1866. Mae'r adeilad, y wal derfyn a'r fynwent yn ffurfio llain cornel sylweddol, gyda'i ochrau'n wynebu Stryd Newydd, Stryd y Castell a Stryd Berkeley, ac yn nodi'r fynedfa i Heol y Castell, gyda golygfeydd clir o gyfeiriad y de a'r gogledd ar Stryd Newydd.



*Capel Morfa*

Wedi'i leoli y tu ôl i Gapel Sul, nid yw Capel Presbyteraidd Morfa yn weladwy iawn o Stryd y Bont, ond mae'n adeilad hanesyddol pwysig, sy'n gofyn am lefel uwch o warchodaeth, yn ogystal â'i fynwent. Wedi'i adeiladu ym 1830, fe'i hailgodwyd ym 1907, yn ôl dyluniad y pensaer WD Morgan o'r Rhondda, yn yr arddull is-glasurol.



*'Castle Farm'*

Mae'r tŷ sengl, a leolir ochr yn ochr â Chapel Siloam, y tybir ei fod yn dyddio o ganol y 19eg Ganrif, yn ffurfio'r fynedfa i Heol y Castell o gyfeiriad y gogledd. Mae ei gonglau o frics melyn o bwys arbennig, yn ogystal â'i wal derfyn a chanddo rheiliau i'r stryd, sy'n creu ychwanegiad dymunol a llawn cymeriad i'r Ardal Gadwraeth.



*31-33 Stryd y Bont*

Adeilad masnachol sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif. Fe'i lleolir ar yr ochr ogleddol i'r bont, sydd, gyda rhif 35, yn ffurfio grŵp unigryw o adeiladau o ansawdd dda sy'n creu pen cadarn i'r bont cyn i'r ffordd ymddolennu tua'r gogledd. Mae'r toeau â thalcen, y teils crib o glai coch, y simnai a'r blaen siop pren sy'n goroesi oll yn helpu i greu ychwanegiad cadarnhaol i'r Ardal Gadwraeth.



*35 Stryd y Bont*

Adeilad trillawr sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif, sy'n diffinio pen gogleddol y bont, ac yn creu cornel gadarnhaol i Stryd y Bont a Stryd y Castell. Mae arysgrif a gerfiwyd mewn carreg uwchben ffenest blaen siop syml yn darllen 'Steam Bakery'. Nodwedd arbennig o ran cymeriad yw tu ôl rwbel yr adeilad, y simnai, y bae mynediad bargodol a'r corneli carreg.



*41-43 Heol Fair*

A hwnnw y tu allan i'r Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd, ond yn terfynu ar y ffin ddeheuol, ymddengys bod yr adeilad sengl hwn yn cynnwys deunydd hanesyddol cynharach sydd efallai'n gysylltiedig â'r hen briordy, gan gynnwys yr hyn yr ymddengys ei fod yn hen gapel. Am y rheswm hwn, cynigir y dylid ei gynnwys fel adeilad o bwys i helpu i warchod ei arwyddocâd hanesyddol.



## Blaenau siopau o bwys

Gall blaenau siopau wneud cyfraniad pwysig tuag at yr Ardal Gadwraeth a gallant wneud cyfraniad sylweddol, o safbwynt cadarnhaol a negyddol, tuag at wedd y stryd.

Enghreifftiau sy'n goroesi o flaenau siopau sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif yw 31-33 a 16 Stryd y Bont, y dylid eu gwarchod oherwydd eu prinder. O ran unrhyw flaenau siopau newydd a gynigir, dylent barchu cymeriad yr adeiladau a feddiannir ganddynt a chael eu hysbrydoli gan yr enghreifftiau hyn sy'n goroesi.

## 4.3 Mannau Gwyrdd a Naturiol Pwysig

Mae'r Ardal Gadwraeth yn manteisio ar lawer o goed aeddfed, mannau gwyrdd, a chynefinoedd naturiol, sy'n cyfrannu at yr ardal ac yn torri ar ddwysedd uchel yr adeiladau ar y stryd. Mae nifer o fannau gwyrdd yn yr Ardal Gadwraeth sy'n ychwanegu'n fawr at ei chymeriad ac yn darparu toriadau pwysig i ddwysedd uchel yr adeiladau ar y stryd a lleoedd i ymlacio, myfyrio a gwerthfawrogi eich amgylchfyd. Maent hefyd yn cynnig buddion o ran llesiant i'r rheini sy'n eu defnyddio ac oherwydd hynny yn meddu ar werth diwylliannol a chymunedol. Ymhlith y nodweddion a'r mannau allweddol y mae:

Gerddi rhandir

Eglwys y Santes Fair

Glannau gogleddol a deheuol yr afon

Safle Ysgol y Castell

Gerddi preswyl i fyny at y stryd

Safle'r castell

Dangosir mannau gwyrdd a nodweddion lleol ar y map a ganlyn.



Safle Ysgol y Castell





16 Stryd y Bont



Mynwent Eglwys y Santes Fair




31-33 Stryd y Bont




- Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau gwyrdd
- Gerddi preifat/lled-breifat
- Coed
- Grŵp o goed

# 5.0 Cymeriad a Golwg

Mae'r adran hon yn disgrifio cymeriad a golwg yr ardal fel y mae'n bodoli ar adeg yr astudiaeth hon. Mae gan yr Ardal Gadwraeth ddwy ran wahanol: y strydoedd yn union o amgylch y castell, a oedd yn rhan o gynllun canoloesol y dref, ynghyd â'r rheiny i'r de o'r afon, a oedd yn rhan o ehangu'r dref, gan uno gyda'r hen briordy. Mae gwahanol batrymau cynllun y stryd yn newid y modd y mae pobl yn symud trwy'r ardaloedd hyn ac yn eu gweld, yn ogystal â dylanwadu ar arddull bensaernïol yr adeiladau oddi mewn iddynt ac, fel y cyfryw, maent yn creu dwy nodwedd unigryw. Cynigir felly y dylid diffinio dwy ardal gymeriad sy'n ymateb i'r gwahaniaethau hyn, gan helpu i warchod, rheoli a gwella'r gwahaniaethau yn ogystal â'r tebygrwydd rhyngddynt.




- Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- ① Ardal Gymeriad y Castell
- ② Ardal Gymeriad y Santes Fair a Stryd y Bont

## 5.1 Nodweddion y Treflun

*Ardal Gymeriad y Castell*

Roedd adeiladu'r castell a'r dref gaerog a dyfodd o'i amgylch yn dylanwadu ar gymeriad a theimlad yr ardal, ac mae'n dal i ddylanwadu yn y modd hwnnw. Fel y cyfryw, mae'r castell yn dirnod ac yn gyrchfan, gyda'r porthdy a'r castell yn dal i fod â chysylltiad gweledol, yn llywio pobl i'r dwyrain o Stryd y Bont. Ochr yn ochr â'r llwybr ar lan yr afon, mae'r castell yn rhoi cyfle i gymryd saib a chael myfyrio am ennyd, ynghyd â rhywle lle gallwch ystyried yr Ardal Gadwraeth yn ei chyfanrwydd.

Ceir cryn amrywiaeth o ran arddulliau pensaernïol yma, gyda datblygiadau mewnlenwi o'r 18fed, 19eg a'r 20fed Ganrif. Nid yw sawl un o'r datblygiadau diweddaraf yn ymateb i nodweddion yr adeiladau cynharach o'u cwmpas, ac mae'n amlwg eu bod yn mynd yn groes i'r golygfeydd o'r strydoedd ac yn tynnu oddi wrthynt. Er enghraifft, tai sy'n sefyll ychydig yn ôl o ymyl y stryd, neu'r rheiny sy'n fwy o ran màs o ran eu huchder a'u lled. Caiff hyn ei waethygu o ganlyniad i ddefnyddio deunyddiau a manylion annodweddiadol. Mae'r amrywiaeth hwn yn creu golygfa fythol amrywiol, o olygfeydd caeedig ar hyd y strydoedd, i gipolygon rhwng adeiladau sengl a golygfeydd panoramig ehangach tuag at yr afon a'r castell, ond gyda'r castell yn elfen gyson bob amser. Dylid gwrthwynebu datblygiadau sy'n amharu ar y nodwedd hon.

Eiddo preswyl a geir yn yr ardal yn bennaf, gyda'r castell a'r bwyty gyferbyn yn ffurfio man agored cyhoeddus mwy yn y fynedfa i'r castell. Mae hyn wedi cyfyngu ar symudiadau ceir trwy'r ffyrdd llai hyn, ond mae'r diffyg lle y tu ôl i eiddo yn golygu bod parcio ar y stryd yn gyffredin ac yn torri ar y golygfeydd ar hyd y strydoedd hyn. Mae'r defnydd o arwyddbyst a lanternau traddodiadol yn ychwanegiad cadarnhaol, ac yn helpu i gynnal ymdeimlad o undod sy'n cydnabod ffiniau'r dref gaerog hanesyddol.

Mae'r mynedfeydd i'r ardal hon yn adlewyrchu lleoliadau'r pyrth hanesyddol. Gallai'r ymdeimlad a geir wrth fynd am Stryd y Castell, wrth yr hen borthdy, fod yn rhywbeth cadarnhaol, ond mae'r traffig ar hyn o bryd, a'r arwyddion a'r tirweddu caled a geir o ganlyniad i hynny, ynghyd â'r arwyddion dim mynediad ar y porth ei hun, yn cymryd trosodd. Mae lleoliad y gysgodfan fysiau a'r datblygiadau cyfoes a chanddynt wal derfyn o frics coch tua'r de, yn ychwanegu at y dryswch hwn ac yn tynnu oddi wrth leoliad y porthdy a'r adeilad, sy'n dyddio o'r 18fed Ganrif, a leolir wrth ei ymyl sydd, fel arall, yn elfennau cadarnhaol. Cafwyd gwared â sawl adeilad o'r stryd yn ystod canol y 20fed Ganrif fyddai wedi mynd ymlaen o fwyty'r porthdy i ffurfio llinell o adeiladau i fyny at y stryd. Mae colli'r rhain yn creu'r bwlch mwy a geir yno, yn ogystal â dau dalcen gwag wrth ymyl porth pwysig. Byddai cyflwyno adeiladau o ansawdd uchel, ynghyd â thirweddu caled a meddal, a/neu gulhau'r lonydd yn y fan hon, yn gwella'r fynedfa arwyddocaol a geir yma yn sylweddol. Mae gweddillion wal gerrig a chanddi fynedfa fwaog yn goroesi i'r gogledd o 'Castle Farm', ond mae hi wedi'i gorchuddio bron yn gyfan gwbl gan lystyfiant.

Mae'r fynedfa i Heol y Castell yn fwy llwyddiannus, ond mae'r arwyddion traffig a datblygiadau cyfoes yn tynnu oddi wrthi ar hyn o bryd, ac nid yw'n glir p'un ai mynedfa hanesyddol yw hon neu'r fynedfa bresennol i'r Castell. Efallai y byddai'r capel yn elwa ar gynllun paentio mwy llachar, yn ogystal â thynnu'r rendrad o'r wal derfyn. Gallai cynnwys coed ar y stryd, ynghyd ag arwyddion a lanternau traddodiadol helpu i gysylltu'r fynedfa hon yn ôl i'r strydoedd y tu hwnt, ynghyd â dynodi ei harwyddocâd hanesyddol.

Mae cofgolofn y rhyfel, er y tu allan i'r Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd, yn dal i fod yn dirnod sy'n ffinio ar yr ardal, ond mae datblygiadau cyfoes a'r gysgodfan fysiau wedi'i fwrw i'r cysgod i raddau helaeth.



Gweddillion wal gerrig i'r gogledd o 'Castle Farm'



Heol y Bailey

*Ardal Gymeriad Eglwys y Santes Fair a Stryd y Bont*

Ffurfir yr ardal hon gan strydoedd hirach a golygfa ehangach o'r dirwedd wrth y bont i'r gogledd, golygfa tuag at Eglwys y Santes Fair yn y sgwâr cyhoeddus i'r de, ynghyd â golygfeydd tuag at allan o gyffyrdd strydoedd. Fel y cyfryw, ceir ymdeimlad caeedig yn y rhan helaeth o'r ardal hon, gydag ymyl caled i'r stryd a ddiffinnir gan yr adeiladau. Ceir mwy o gysondeb o ran arddull pensaernïol, gyda'r rendradau lliw a'r toeau'n torri ar y ffurfioldeb ac yn ychwanegu diddordeb, sy'n eich annog i symud trwodd ac i fynd i ddarganfod yr ardal. Lleolir adeiladau uwch, mwy amlwg, ar y corneli, sy'n darparu mynedfeydd i'r gogledd a'r de o Stryd y Bont, ac yn nodweddion cyfatebol ar y naill ochr i'r stryd. Yn rhif 16, mae parapet uchel wedi ymestyn yr adeilad tuag at i fyny, sy'n torri'r llinell doeau, ac yn nodwedd amlwg sy'n tynnu oddi wrth y golygfeydd ymlaen trwy'r lleoliad hwnnw. Dylid gwrthwynebu unrhyw estyniadau pellach.

I gyfeiriad y de, mae'r Kidwelly Arms a'r ganolfan gymuned gyfagos wedi'u haddurno â phalet o liwiau tebyg, sydd wedi creu bloc rhy fawr sy'n mynd yn groes i'r lleiniau culach o'u cwmpas. Mae adeilad Neuadd y Dref yn diffinio'r gornel rhwng Heol Fair a Stryd y Bont, yn ogystal ag yn dirnod amlwg ymhlith y toeau. Fodd bynnag, mae ei gyflwr, ynghyd â'r diffyg o ran y math o fan cyhoeddus y byddech yn ei gysylltu ag adeilad o'r math hwn, yn tynnu oddi wrth ei leoliad. Hefyd, mae'r llain gornel gyferbyn, â'i harwyddion stryd niferus, ynghyd â'r tarmac clytiog sydd wedi'i atgyweirio'n flêr, yn cyfrannu ymhellach at ansawdd wael y lleoliad hwn.

Mae'r bont, a hithau'n fan croesi allweddol dros yr afon, wedi creu traffig trwm trwy bob un o'r strydoedd hyn, gyda phalmentydd cul, cyffyrdd croesgam yn Heol yr Orsaf a Heol Fair, a diffyg o ran croesfannau, sy'n gorfodi pobl i gerdded ar un ochr i'r ffordd, heb fawr o gyfle i werthfawrogi'r golygfeydd neu'r adeiladau o'u cwmpas.

Gallai'r ymdeimlad a geir o fewn y sgwâr cyhoeddus i'r gorllewin o'r eglwys fod yn rhywbeth cadarnhaol, sy'n cynnig cyfle i gael saib a myfyrio am ennyd, ond nid yw ansawdd wael y tirweddu, y bloc toiledau, y gysgodfan fysiau a'r bolardiau cyfoes yn annog rhywun i fod eisiau treulio unrhyw amser yno. Hefyd, mae'r talcen gwag a grëwyd o ganlyniad i gael gwared â'r adeiladau o ymyl y stryd, ynghyd ag amryw arwyddion stryd, wedi effeithio ar ansawdd weledol y lleoliad hwn. Gallai'r defnydd o ffiniau traddodiadol, tirweddu o ansawdd uchel, celfwaith, deunydd dehongli a dodrefn stryd helpu i wella'r ardal er budd ehangach yr Ardal Gadwraeth.

Ceir golygfa arbennig o arwyddocaol yng Nger-Y-Castell wrth edrych yn ôl tuag at y castell a thu hwnt.



Stryd y Bont yn edrych i'r de, tuag at Stryd y Sarn



Llecyn o dir y cyhoeddus gyferbyn â Heol yr Orsaf



Heol Fair yn edrych i'r gorllewin

## 5.2 Deunyddiau adeiladu

Mae'r delweddau a'r rhestr a ganlyn yn rhoi enghreifftiau o'r deunyddiau a ddefnyddir o fewn yr Ardal Gadwraeth, sydd naill ai'n gwella neu'n gwarchod nodweddion yr ardal.

*O ran adeiladau mwy sy'n dirnodau amlwg ac o natur grefyddol fel arfer*

Gwaith maen ar y wyneb

Carreg rwbel

Manylion carreg

Brics melyn a choch

*Deunyddiau cyffredin a welir ledled yr Ardal Gadwraeth*

Rendrad wedi'i baentio, stwco a phlastr garw

Rwbel, wedi'i baentio a heb ei baentio

Toeau llechi

Teils crib clai


Gwaith plwm

Gwaith coed wedi'i baentio

Cafnau dŵr ac ati o haearn bwrw

*Deunyddiau terfyn*



Rwbel gyda thop cerrig sydd wedi'i gapio
Giatiau a rheiliau o waith haearn bwrw/haearn gyr













## 5.3 Uchder Adeiladau a’u perthynas â lleiniau

*Ardal Gymeriad y Castell*

Roedd y dref newydd o fewn amddiffynfeydd y dref hanesyddol wedi esblygu o gyfres o leiniau tir bwrdais i greu ambell eiddo sengl, gyda’r tir rhyngddynt wedi’i fewnlenwi’n raddol o’r 19eg Ganrif ymlaen. Mae hyn wedi creu cryn amrywiaeth o ran màs, uchder a’u lleoliad mewn perthynas â’r stryd, gan gynnwys adeiladau sengl, adeiladau pâr yn union ar ymyl y stryd, rhai a chanddynt leiniau blaen cul gyda waliau terfyn i’r stryd, ynghyd â rhai a chanddynt erddi mwy, sy’n gosod yr adeiladau’n bellach yn ôl o’r palmant. Integreiddwyd dreifiau a garejis hefyd. Fel y cyfryw, at ei gilydd, diffinnir y golygfeydd trwy’r strydoedd hyn gan adeiladau a waliau terfyn.

Yn lle ceir gerddi mwy o fewn y datblygiadau cyfoes ger y porthdy, mae hyn wedi gwanio nodweddion y fynedfa hon. Ceir hefyd fan gwyrdd agored y tu ôl i’r ysgol, ond mae wal rwbel i’r stryd yn sicrhau y caiff yr ymyl caled ei gadw.

Ceir cyfuniad o adeiladau a chanddynt un neu ddau lawr. Ar y cyfan, tai allan hanesyddol neu estyniadau yw’r adeiladau unllawr. Adeilad unllawr yw Ysgol y Castell, ond mae ei dalcennau a’r ffaith ei fod yn uwch yn sicrhau na chaiff ei fwrw i’r cysgod. Eithriadau i hyn yw’r porthdy, y castell a’r capel, sef adeiladau sy’n dirnodau mwy ac sy’n nodweddu tair cornel amlwg.

*Ardal Gymeriad Eglwys y Santes Fair a Stryd y Bont*

Ceir mwy o gysondeb o ran nodweddion yr ardal gymeriad hon, gydag adeiladau wedi’u lleoli ar ymyl y stryd, a waliau terfyn Eglwys y Santes Fair a Chapel Sul yn cynnal llinell gyson.

At ei gilydd, adeiladau deulawr a geir yma, gyda llond llaw o adeiladau trillawr yn y cyffyrdd, ac yn lle estynnwyd adeiladau tuag at i fyny, a hynny yn aml ar draul yr adeilad gwreiddiol. Mae hyn yn amrywio’r llinell doeau ac yn cyflwyno talcennau sy’n wynebu’r stryd. Adeiladau deulawr a geir ar Heol Fair ond mae amrywiaeth o ran goleddf y toeau yn amrywio’r golygfeydd i ryw raddau.

Yn lle cafwyd gwared ag adeiladau, mae hyn yn amlwg yn torri ar y llinell adeiladau. Gwelir hyn yn amlwg yn nhir y cyhoedd ger yr eglwys.

Gallai terfyn traddodiadol yn y lleoliad hwn helpu i’w wneud yn llai chwithig.

Mae’r strydoedd cefn yn cynnig mwy o amrywiaeth gyda golygfeydd tuag at y tu ôl iddynt, ynghyd ag estyniadau unllawr a thai allan cyfoes. Gellir gweld y golygfeydd hyn o’r llwybr ar lan yr afon ac o’r castell, sy’n darparu golygfeydd yn ôl tuag at yr Ardal Gadwraeth. Gellir anwybyddu’r ardaloedd hyn yn hawdd o safbwynt datblygu, ond gallai hynny greu newidiadau sylweddol o ran y golygfeydd o’r golygfannau pwysig hyn.

Mae’r lleiniau o dir bwrdais a oedd unwaith yn diffinio’r ardal hon wedi’u colli bellach, er bod y lleiniau adeiladu ‘2 fae’ o ran lled yn cadw rhywfaint o’r cymeriad hanesyddol hwn. Bu adeiladau mwy o ran eu meintiau, neu sydd wedi’u cyfuno heb leihau màs yr adeilad mewn perthynas â’r stryd, yn llai llwyddiannus.



Teras preswyl i Heol Fair



Tai ar Stryd y Castell

## 5.4 Manylion nodweddiadol neu arwyddocaol


*O ran adeiladau sy'n dirnodau amlwg, gan gynnwys y rheiny o natur grefyddol*

Giatiau a rheiliau addurnol o waith haearn
Rhwyllwaith carreg a ffenestri bwaog
Conglfeini/conglau amlwg
Bondoeau danheddog
Enwau cerfiedig
Baeau drysau bargodol
Tyrau a meindyrau

*Manylion cyson ledled yr Ardal Gadwraeth*

Toeau serth
Simneiau
Cribau addurnol
Rendradau wedi'u paentio'n lliwgar
Drysau coed panelog
Manylion amlwg o waith brics neu wedi'u paentio yn fframio ffenestri
Meini clo a meini addurnol ac ati yn fframio drysau
Ffenestri codi pren, fel arfer 1 dros 1 a 2 dros 2
Manylion plinthau
Waliau terfyn rwbel
Rheiliau metel wedi'u paentio
Lanternau traddodiadol ar Stryd y Castell a Heol y Bailey




















## 5.5 Tir cyhoeddus: wynebau, dodrefn stryd ac arwyddion

Mae'r ffyrdd a'r palmantau ledled yr Ardal Gadwraeth wedi'u gwneud o goncrit, gyda slabiau ag iddynt broffil uwch wrth y cyrbiau isel, sy'n tynnu oddi wrth eu lleoliad oherwydd eu lliw a'u math. Mae'r gwaith atgyweirio clytiog a geir yma ac acw yn amharu ar ansawdd y lle hefyd. Yr unig eithriad i hyn yw'r slabiau palmant concrit o fewn ardal o dir cyhoeddus i fyny at gyffordd Stryd y Bont a Heol yr Orsaf. Gallai hon fod yn ardal ag iddi nodweddion cadarnhaol o fewn yr Ardal Gadwraeth, sy'n cynnig golygfa arwyddocaol o feindwr yr eglwys, ond nid yw'n ddeniadol ar hyn o bryd oherwydd y wynebau caled a lleoliad y gysgodfan fysiau sy'n rhwystro'r golygfeydd i mewn i'r lleoliad hwn, a thuag at allan. Gosodwyd cysgodfan fysiau debyg wrth ymyl y cerflun coffa a'r porthdy hefyd sydd, unwaith eto'n amharu ar eu lleoliad. O ran y fynedfa i'r porthdy a thuag at Heol y Castell, ceir nifer o arwyddion stryd sy'n tynnu oddi wrth y golygfeydd.

Ar nodyn cadarnhaol, defnyddiwyd lanternau ac arwyddbyst traddodiadol ar hyd Stryd y Castell a Stryd Berkeley, sy'n rhoi hwb sylweddol i'r ardal ac yn creu golygfeydd llawn cymeriad o'r stryd.


Mae'r llwybr ar lannau'r afon yn teimlo'n wahanol iawn i'r rhwydwaith o strydoedd caeedig, a hwnnw'n agored ac wedi'i ddiffinio gan yr afon a'r dirwedd o'i gwmpas. Ardal dawel i'r cyhoedd yw hon, ond efallai y byddai'n elwa ar arwyddion i ddangos y ffordd, ynghyd â goleuadau a seddau o ansawdd dda.



Stryd y Castell gan edrych i gyfeiriad y castell



Ardal o dir y cyhoedd i'r gorllewin o Eglwys y Santes Fair




Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli

Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau

Mannau i gerddwyr

Nodwedd hanesyddol o'r treflun

Blaen siop hanesyddol

Celfi stryd

## 5.6 Deunyddiau a dulliau trin ffiniau

*Ardal Gymeriad y Castell*

Ceir cryn amrywiaeth o ran y mathau o ffiniau a geir ledled yr ardal hon, yn nhermau waliau terfyn eiddo preswyl yn bennaf. Gwnaed y ffiniau hanesyddol o rwbel, y mae rhai ohonynt yn cynnwys rheiliau, neu heb reiliau, ac yn amrywio o ran eu huchder, sy'n agor ac yn amgáu golygfeydd fel yr ydych yn teithio. Ceir cymysgedd o wahanol fathau o ddulliau capio hefyd, o ran capiau carreg a choncrit, morter, a cherrig yn sefyll ar eu pennau. Cyflwynwyd nifer o wahanol fathau o ddeunyddiau cyfoes yn lle ceir datblygiadau newydd, sydd naill ai'n creu ffiniau newydd, neu efallai'n cael gwared â ffiniau hanesyddol. Yn eu plith y mae coed, gwaith brics, gwaith blociau wedi'i rendro neu heb rendrad.

Nid yw'r amrywiaeth o fewn yr ardal hon o reidrwydd yn nodwedd negyddol, ond o ran lle cyflwynwyd deunyddiau sy'n groes i'r hyn sydd o'u cwmpas, mae hyn yn tynnu oddi wrth eu lleoliad. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig yn y gyffordd rhwng Stryd y Castell a Stryd Newydd, yn lle codwyd wal frics coch ochr yn ochr â thai newydd, sy'n amharu ar yr olygfa bwysig wrth ddynesu at y castell a'r porthdy.

O ran y llwybr ar lannau'r afon o amgylch y castell, ceir cyfuniad o weiren bigog, rheiliau metel agored, ynghyd ag ymylon carreg isel.

Byddai sicrhau cysondeb, a'r defnydd o ddeunyddiau o ansawdd uchel o ran y ffiniau yn yr ardal hon, yn helpu i gynnal y golygfeydd pwysig i gyfeiriad yr afon ac oddi yno, ynghyd ag ar ei thraws.

*Ardal Gymeriad Eglwys y Santes Fair a Stryd y Bont*

Nodweddir Stryd y Bont gan adeiladau a leolir yn union ar ymyl y stryd. Fel y cyfryw, ychydig iawn o waliau terfyn a geir yma, ar wahân i hynny a geir wrth ymyl y tri adeilad mwyaf sy'n dirnodau amlwg yn yr ardal: Eglwys y Santes Fair, Neuadd y Dref a Chapel Sul. Mae'r wal derfyn uchel i Heol Fair yn diffinio'r olygfa o'r stryd i raddau helaeth, ac yn cyfyngu ar yr olygfa i mewn i'r fynwent, hyd at y giatiau mynediad. Mae'r modd y cafodd y wal derfyn i Gapel Sul ei rendro wedi amharu ar leoliad yr adeilad. Mae'r ardal o dir agored y tu ôl i Neuadd y Dref wedi'i derfynu â ffens goed agored ar hyn o bryd, a hwnnw o natur adeilad preswyl, nad yw'n briodol ar gyfer statws neu arddull pensaernïol yr adeilad.



Llwybr glannau'r afon tua'r gorllewin



Melin-y-Castell



Heol Fair ac Eglwys y Santes Fair



Stryd y Bont a Chapel Sul

## 6.0 Dadansoddiad o'r Adeiladau

### 6.1 Adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at Ardal Gadwraeth


Yn ychwanegol i'r adeiladau nodedig hynny a nodir yn adran 4.1, mae sawl adeilad cyffredin arall yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymeriad ac ansawdd yr ardal gadwraeth; gall hyn fod am nifer o resymau gwahanol. Yn eu plith y mae eu cyfraniad o ran y treflun, eu hansawdd, eu nodweddion addurnol, neu eu cysylltiadau hanesyddol neu ddiwylliannol.

Tra bo sawl adeilad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr ardal gadwraeth, mewn nifer o achosion, amharwyd ar eu hansawdd pensaernïol gan newidiadau o safon wael. O ran eiddo domestig, mae hyn yn tueddu i fod o ganlyniad i golli nodweddion hanesyddol fel ffenestri codi a wnaed o goed. Er hyn, mae'r adeiladau'n dal i arddangos nodweddion cryf ac yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol y gellid eu gwella'n sylweddol trwy adfer newidiadau sy'n tynnu oddi wrthynt. Byddid yn cefnogi ceisiadau i ddadwneud addasiadau anghydnaws, naill ai ar ffurf cais ar gyfer yr addasiadau hynny'n benodol, neu fel rhan o waith ailddatblygu ehangach.

### 6.2 Adeiladau sy'n tynnu oddi wrth yr Ardal Gadwraeth

Nodir bod adeiladau negyddol yn rhai sydd, o ganlyniad i'w graddfa, eu dyluniad manwl, neu ddeunyddiau, yn anghyson mewn perthynas â chymeriad y rhan helaeth o'r ardal gadwraeth. Gellir ystyried y rhain fel adeiladau y dylid eu hailddatblygu'n gyfan gwbl er, mewn rhai achosion, gall fod yn addas i gadw cragen yr adeiladau hyn, gan osgoi'r carbon sy'n rhan o waith ailddatblygu ar raddfa fawr.

Nodir yr adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol, a'r rhai sy'n tynnu oddi wrth yr ardal, ar y map a ganlyn.




Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli
Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
Adeiladau cadarnhaol
Adeiladau amharol

## 7.0 Arwyddocâd

Un o’r egwyddorion arweiniol o ran rheoli newid o fewn yr amgylchedd hanesyddol yw dealltwriaeth o arwyddocâd yr ased hwnnw, bo hwnnw’n adeilad, yn lle, neu’n rhywbeth mwy anghyffwrdd o ran natur. O ran arfer orau, awgrymir y dylid asesu arwyddocâd yn erbyn cyfres o werthoedd a nodir isod:

Gwerth Tystiolaethol: Yr olion ffisegol a’r adeiladwaith sy’n goroesi, sy’n dal i fodoli yn yr ardal

Gwerth Hanesyddol: Sut y gall yr ardal ein haddysgu am bobl, digwyddiadau neu agweddau ar fywyd y gorffennol.

Gwerth Esthetig: P’un a yw’r ardal yn un bleserus o ran crwydro o’i chwmpas a’i phrofi.

Gwerth Cymunedol: Ei gwerth yng ngolwg y bobl sy’n byw yn yr ardal, sy’n gweithio ynddi, ac yn ymweld â hi.

Efallai fod pob un o’r gwerthoedd hyn yn bodoli i amrywiol lefelau, o lefel is i lefel uchel, ac mae’n bwysig deall hyn hefyd. Yn ogystal, mae’n bwysig adnabod yr eitemau hynny nad ydynt efallai’n dod o fewn y categorïau hyn, neu sy’n dod o fewn mwy nag un categori, a hynny i wahanol lefelau. Gall hyn fod yn wir yn enwedig wrth ystyried y nodweddion hynny sy’n creu ymdeimlad o le.

Mae’r crynodeb a ganlyn yn nodi’r prif eitemau sydd o arwyddocad o safbwynt yr Ardal Gadwraeth. Dilynir hyn gan archwiliad fanylach o bob eitem, gan orffen trwy nodi’r modd y mae pob un yn cysylltu â gwerthoedd tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol, ac i ba lefel.

- Patrwm strydoedd hanesyddol y mae llawer ohono wedi goroesi o’r dref gaerog ganoloesol, ynghyd â’r ehangiad dilynol i’r de o’r afon
- Dau batrwm amlwg o symudiad a datblygiad ar sail hynny a geir yn yr hen dref a’r dref newydd
- Cryn botensial o safbwynt archaeolegol
- Mae’n cynnwys heneb gofrestredig Castell Cydweli
- Eglwys y Santes Fair, yr eglwys blwyf fwyaf yn Ne Orllewin Cymru
- Cysylltiadau â’r chwyldro diwydiannol a welir ledled De Orllewin Cymru yn y 19eg Ganrif
- Cyfres o olygfeydd arwyddocaol i mewn i’r ardal, o gyfeiriad yr ardal a ledled yr ardal oherwydd ei thopograffi a’i lleoliad
- Adeiladau arwyddocaol o safbwynt lleol a chenedlaethol
- Ffiniau hanesyddol sy’n goroesi, sy’n cynnwys metelwaith a rwbel
- Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig
- Sawl cysylltiad â digwyddiadau a phobl nodedig

*Patrwm strydoedd hanesyddol*

I raddau helaeth, mae Cydweli’n dilyn ffurf ganoloesol y dref, o Gastell Cydweli i’r gogledd o’r afon ac Eglwys y Santes Fair i’r de. At ei gilydd, patrymau’r ffordd a’r strydoedd sy’n dal i lywio datblygiadau, yn ogystal â’r modd yr ydych yn symud trwy’r Ardal Gadwraeth ac yn ei phrofi.

*Yr hen dref a’r dref newydd*

Datblygodd Cydweli o amgylch tair elfen wahanol: y castell a’r dref i’r gogledd, a elwir y ‘dref newydd’, ynghyd â’r priordy i’r de, a elwir yr ‘hen dref’. Wedi’u gwahanu gan yr afon, mae datblygiad y ddwy ardal hon, gan gynnwys ehangu’r dref y tu allan i amddiffynfeydd y dref, wedi creu dwy ardal wahanol, y mae eu nodweddion yn dal i fod yn adnabyddadwy o ran eu natur unigryw.

*Potensial archaeolegol*

Oherwydd ei tharddiad canoloesol, mae’n bosibl iawn fod llawer i’w ddarganfod eto o safbwynt archaeolegol, trwy ddarganfyddiadau, yn ogystal â’r wybodaeth y gallwn ei chael am ddatblygiad y dref ynghyd â dealltwriaeth ehangach o’i hanes. Mae’n hawdd esgeuluso hyn, gan mai’r posibiliadau o ran yr hyn sy’n bodoli o dan y ddaear sydd dan sylw yn y cyswllt hwn. Ond mae gofyn rheoli unrhyw waith datblygu’n ofalus, i osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddifrodi’r darganfyddiadau pwysig hyn mewn unrhyw fodd. Nid oes unrhyw sicrwydd hyd yma o ran lleoliad y priordy, a bydd angen ystyried y posibilrwydd hwn wrth fwrw ymlaen ag unrhyw ddatblygiad yng nghyffiniau Eglwys y Santes Fair. Awgrymwyd hefyd y posibilrwydd bod anheddiad Rhufeinig cynharach yn bodoli yno.

*Castell Cydweli*

Codwyd y castell gan yr Esgob Roger ym 1106 yng ngheg Gwendraeth Fach, gan ffurfio un o gyfres o gadarnleoedd Normanaidd, i ddiogelu De Cymru a rheoli'r afonydd yr oedd y ffordd i'r gorllewin yn eu croesi. Sefydlwyd y dref y tu hwnt i'w furiau o'i gwmpas, gan ehangu a thyfu i greu'r hyn y gallwn ei weld heddiw. Ystyrir ei fod yn un o'r enghreifftiau gorau o gestyll canoloesol o fewn De Cymru, ac fe'i gwnaed yn heneb gofrestredig mewn cydnabyddiaeth o'i werth arwyddocaol o safbwynt hanesyddol, ynghyd â'i botensial o ran archaeoleg.

Mae'n dal i fod yn nodwedd amlycaf sawl golygfa, sy'n ein hatgoffa o bwysigrwydd rôl y castell yn natblygiad Cydweli, ac mae'n rhan arwyddocaol o gymeriad yr ardal.

*Eglwys y Santes Fair*

Priordy Cydweli oedd un o'r celloedd Benedictaidd lleiaf yng Nghymru'r Canol Oesoedd. Ar ôl ei llosgi, adeiladwyd eglwys blwyf y Santes Fair, yr ystyrir bellach mai hon yw'r eglwys blwyf fwyaf yn Ne Cymru. Mae ei dyluniad Gothig a'i thwr yn arbennig o nodedig, a gellir ei gweld ledled yr ardal. Mae hefyd yn nodweddu safle'r hen dref, ynghyd â darparu cyswllt ffisegol â hanes Cydweli.

*Y Chwyldro Diwydiannol*

Ffynnodd y dref yn y 19eg Ganrif trwy'r cysylltiadau masnachol a gefnogwyd gan ei lleoliad ar yr afon ers ei sefydlu. Roedd hyn yn cynnwys ffatri dunplat fawr, yr ail i'w datblygu yng Nghymru, ynghyd â nifer o safleoedd gwaith brics sylweddol a oedd yn allforio brics ledled y byd. Roedd y tai, y siopau, y capeli a'r eglwysi'n ffrwyth y ffyniant hwn, ac maent yn cynnal cysylltiad gweladwy â'r cyfnod hwn o fewn datblygiad y dref.

*Golygfeydd arwyddocaol*

Mae topograffi'r ardal yn creu cyfres o olygfeydd arwyddocaol i mewn i'r ardal, o gyfeiriad yr ardal a ledled yr ardal, gan gynnwys y golygfeydd i'r pellter ar hyd strydoedd. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r golygfeydd agosach, caeedig, i'r naill ochr, ynghyd â golygfeydd ehangach tuag at y dirwedd a'r afon y tu hwnt. Mae pob un o'r golygfeydd hyn yn darparu safbwynt gwahanol o ran yr ardal, y modd y mae wedi datblygu, ac yn newid y modd yr ydych yn symud trwy bob rhan ohoni ac yn eu profi. Hefyd, mae meindwr Eglwys y Santes Fair a gweddillion y castell yn dirnodau arwyddocaol o fewn y treflun.

*Adeiladau o arwyddocâd*

Ceir cyfres o adeiladau rhestredig ledled yr Ardal Gadwraeth sydd wedi'u rhestru am eu hansawdd o safbwynt pensaernïol, ynghyd â'u hadeiladwaith hanesyddol sy'n goroesi. Fel y cyfryw, mae'r rhain nid yn unig yn meddu ar estheteg o ansawdd uchel, ond hefyd yn caniatáu i ni ddeall y modd y gallech fod wedi profi'r ardal yn y gorffennol. Yn lle mae adeiladwaith hanesyddol yn goroesi, gall hyn hefyd lywio gwaith i adfer manylion a gollwyd, ynghyd ag ysbrydoli datblygiadau i'r dyfodol sy'n deillio o gymeriad yr ardal, sydd o ansawdd uchel.

*Ffiniau hanesyddol*

Er y collwyd nifer o ffiniau hanesyddol, ceir cyfres o waliau cerrig a rheiliau addurnol sy'n ychwanegiad arwyddocaol i'r golygfeydd o'r strydoedd, sy'n cynnal ymyl caled nodweddiadol y stryd, yn ogystal ag yn darparu tystiolaeth o leiniau hanesyddol.

*Adeiladau crefyddol nodedig*

Mae cyfres o eglwysi a chapeli'n cynnig cyfle i fyfyrio a darganfod pethau. Y rhain yn aml yw nodweddion amlycaf y strydoedd, neu maent yn diffinio blociau ar gornel strydoedd. Mae pob un o ansawdd uchel o safbwynt pensaernïaeth, ac yn eich gwahodd i'w harchwilio, yn ogystal ag yn cynnal cysylltiad cyffyrddadwy â datblygiad hanesyddol cymunedau crefyddol o fewn y dref.

*Digwyddiadau a phobl nodedig*

Bu'r Ardal Gadwraeth yn dyst i sawl digwyddiad hanesyddol nodedig, bu'n gartref i sawl preswylydd nodedig, ac mae'n cynnal cysylltiad ffisegol â llawer o'r rhain trwy adeileddau adeiledig. Yn eu plith y mae Gwenllian, a arweiniodd y fyddin Gymreig i ymosod ar y dref a'r castell ym Maes Gwenllian; sefydlwyd y gwaith tunplat cynharaf ond un yma ym 1737; dyluniwyd Neuadd y Dref a 'Rumsey House' gan TWA Evans, a oedd yn bensaer ac yn Faer Cydweli; adeiladodd Syr Alfred Stephens waith brics sylweddol, a rhoddodd Barc Stephens i'r dref ym 1921; ynghyd â'r castell a'r bont, a fu'n destun ysbrydoliaeth i artistiaid nodedig, gan gynnwys Turner.

| | Gwerth Tystiolaethol | Gwerth Hanesyddol | Gwerth Esthetig | Gwerth Cymunedol |
|---|---|---|---|---|
| Patrwm strydoedd hanesyddol | | | | |
| Yr hen dref a’r dref newydd | | | | |
| Potensial archaeolegol | | | | |
| Castell Cydweli | | | | |
| Eglwys y Santes Fair | | | | |
| Y Chwyldro Diwydiannol | | | | |
| Golygfeydd arwyddocaol | | | | |
| Adeiladau o arwyddocâd | | | | |
| Ffiniau hanesyddol | | | | |
| Adeiladau crefyddol nodedig | | | | |
| Digwyddiadau a phobl nodedig | | | | |

Gwerth Isel
Gwerth Canolig
Gwerth Uchel

# 8.0 Problemau, Bygythiadau, a Chynigion o Safbwynt Rheoli

*Trosolwg strategol*

Fel y nodir yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, ardal gadwraeth yw 'an area of special architectural or historic interest the character or appearance of which it is desirable to preserve or enhance'. Fel y cyfryw, mae angen i Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) sicrhau 'special attention shall be paid to the desirability of preserving or enhancing the character or appearance of that area' (Adran 72). Mae gan CSC ddyletswydd 'from time to time to formulate and publish proposals for the preservation and enhancement of any parts of their area which are conservation areas' (Adran 71).

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r problemau a'r bygythiadau a nodwyd trwy baratoi Gwerthusiad Cymeriad Ardal ar gyfer Cydweli.

O ran pob eitem, cynigir argymhellion ar gyfer ei rheoli. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ac nid yw'n golygu na ellir cynnwys eitemau ychwanegol a fydd yn codi ar hyn o bryd, neu o fewn datblygiad yr Ardal Gadwraeth at y dyfodol.

Mae'r materion yn ymwneud â'r eitemau cyfredol hynny sy'n amharu ar olwg neu gymeriad yr ardal. Bygythiadau yw'r eitemau hynny, nad ydynt yn achosi niwed ar hyn o bryd, ond a fydd efallai yn gwneud hynny trwy addasiadau ansensitif. O ran yr eitemau hynny a nodir fel problemau, dylid eu hystyried hefyd fel y rheiny sy'n fygythiad parhaus. Ochr yn ochr â phob un ohonynt, ceir argymhelliad o ran rheoli, gyda'r bwriad o sicrhau bod cymeriad, golwg yr ardal gadwraeth, ei harwyddocâd, a'i diddordeb arbennig o safbwynt pensaernïol a hanesyddol, yn cael eu cadw a'u gwella. Gallai'r argymhellion hyn o ran yr amgylchedd lywio'r gwaith o gynhyrchu dogfen bolisi ehangach a manylach ar gyfer rheoli'r ardal, i'w llunio gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Nodwyd y materion trwy ymweliadau â safleoedd, yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid, swyddogion y Cyngor Sir a'r cyhoedd. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, o ran cadwraeth yr adeiladwaith hanesyddol presennol, ynghyd ag effaith datblygiadau newydd ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys y rheiny y nodwyd eu bod yn effeithio tir y cyhoedd.

Darparwyd enghreifftiau hefyd i ddangos enghreifftiau da a gwael o'r modd y rheolir yr eitemau hyn, er mwyn cynnig arweiniad ychwanegol wrth ystyried datblygu o fewn yr ardal. Mae'n bwysig darllen y canlynol ar y cyd â'r holl arweiniad a dogfennau polisi perthnasol, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol 2018 - 2033 CSC, a chanllawiau cynllunio atodol.

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| **1.0** | **Golygfeydd a lleoliad** | | |
| 1.1 | Mae strydoedd cefn a'r tu ôl i adeiladau'n rhan o'r Ardal Gadwraeth sy'n llawn cymeriad, sy'n cynnwys cipolwg ar y golygfeydd y tu hwnt i'r brif ffordd drwodd. O ganlyniad i'r hyn a welir fel diffyg gwelededd, gall yr ardaloedd hyn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol fel taflu ysbwriel, difrod i adeiladau, tir y cyhoedd, a graffiti. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn dioddef diffyg gwaith cynnal a chadw cyffredinol, o ran tir y cyhoedd a dulliau trin ffiniau, sy'n erydu cymeriad yr ardaloedd hyn. Enghraifft o hyn yw'r maes parcio y tu ôl i Stryd y Bont a Morfa Lane. Mae angen ystyried golygfeydd o'r castell yn arbennig, gyda golygfeydd ehangach o'r dirwedd yn ôl i'r rhan helaeth o'r Ardal Gadwraeth. | Dylid asesu cynigion ar gyfer datblygu yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad a golwg strydoedd cefn a'r tu ôl i adeiladau, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif ffyrdd drwodd. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod yr ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau yr ystyrir y byddant yn achosi niwed. Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei lleoliad guddio neu dynnu oddi wrth olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, i gyfeiriad yr ardal gadwraeth, neu o gyfeiriad yr ardal. Cafodd golygfeydd a thirnodau pwysig eu hamlygu o fewn y gwerthusiad, fodd bynnag, gellir canfod rhagor trwy werthusiadau eraill. |  |
| 1.2 | Gall fod yn anodd gwarchod golygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth, gan y gall yr adeiladau hynny a chanddynt y potensial i effeithio golygfeydd allweddol fod y tu allan i ardaloedd gwarchodedig fel yr Ardal Gadwraeth; efallai nad yw eu heffaith bob amser yn gwbl amlwg dim ond ar ôl eu hadeiladu. Mae hyn yn ymwneud â chyflwyno adeiladau uchel y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, neu'r rheiny ar dir uwch sy'n effeithio golygfeydd o'r dirwedd ymhellach draw yn y pellter. Er enghraifft, tra bo cryn dipyn o leoliad yr Ardal Gadwraeth yn cael ei warchod gan derasu sy'n amgáu llawer o ffryntiadau'r prif ffyrdd, mae topograffi'r tir yn caniatáu golygfeydd panoramig a phell mewn sawl lleoliad o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r golygfeydd o feindwr Eglwys y Santes Fair yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at yr ardal hefyd. Er enghraifft, mae cyflwyno datblygiadau cyfoes ar lannau'r afon wedi effeithio'r golygfeydd o lwybr glannau'r afon a gerddi'r castell. | O ran datblygiadau o fewn lleoliad yr ardal gadwraeth, dylid eu hasesu'n ofalus i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau yr ystyrir y byddant yn achosi niwed.<br>Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei lleoliad guddio neu dynnu oddi wrth olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, i gyfeiriad yr ardal gadwraeth, neu o gyfeiriad yr ardal. Cafodd golygfeydd a thirnodau pwysig eu hamlygu o fewn y gwerthusiad, fodd bynnag, gellir canfod rhagor trwy werthusiadau eraill.<br>O ran cynigion y mae'n bosib y byddant yn dod o fewn golygfeydd pwysig ac yn effeithio'r golygfeydd hynny sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, ynghyd â'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, dylid eu hasesu'n ofalus.<br>Efallai y bydd angen golygfeydd sydd wedi'u cynhyrchu â chyfrifiadur, ac wedi'u gwirio, sy'n dangos effeithiau posibl cynigion er mwyn egluro'r effaith ar gymeriad a golwg yr ardal neu ei lleoliad. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| **2.0 Dymchwel adeiladau** | | | |
| 2.1 | Gall colli adeiladau i fyny at y stryd greu bylchau, gall wneud traffig a thirweddu caled cysylltiedig yn fwy amlwg, a gall greu talcennau gwag. Er enghraifft, yn lle cafwyd gwared ar adeiladau i greu mynediad trwodd i'r priordy, ac i greu sgwâr cyhoeddus wrth ymyl Eglwys y Santes Fair. | Ceir llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau o werth, nad ydynt yn rhestredig, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth gref y dylid cadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn creu bylchau modern a fyddai'n amharu ar olygfeydd gweddluniol o linellau stryd sefydledig o bell. |  |
| **3.0 Ailddatblygu** | | | |
| 3.1 | Gall defnyddio deunyddiau modern, nad ydynt yn ategu neu'n briodol ar gyfer y palet o ddeunyddiau sy'n bodoli eisoes, erydu cymeriad ac arwyddocâd hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.<br><br>Er y dylai adeilad fod yn nodweddiadol o'i gyfnod, bydd parchu'r palet gwreiddiol o ddeunyddiau i ryw raddau yn sicrhau cysondeb. Yn yr un modd, mae adeiladau sydd wedi'u dylunio'n wael wedi niweidio'r Ardal Gadwraeth; rhaid parchu nodweddion gwreiddiol dyluniadau o'r 19eg Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif i atal rhagor o niwed. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw'r ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd dda, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai unrhyw waith ar adeiladau hanesyddol, ynghyd ag addasiadau ac estyniadau, ymateb mewn modd cadarnhaol i arddull pensaernïol gwreiddiol yr adeilad, ynghyd â'i leoliad, a dylai wella ei olwg traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at y Canllaw Creu Lleoedd 2020. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| 3.2 | Mae lleiniau cornel yn byrth pwysig i'r Ardal Gadwraeth ac maent yn nodi cyffyrdd i ffyrdd cangen. Er enghraifft, mae'r adeiladau hynny i'r gogledd a'r de o'r bont yn darparu mynedfeydd llawn cymeriad, ynghyd â golygfeydd yn ôl tuag at y bont, ac ar ei hyd. Mewn cymhariaeth, nid yw'r olygfa i gyfeiriad Stryd Newydd cystal o bell ffordd, oherwydd mai'r datblygiadau cyfoes yw'r nodwedd amlycaf ar y cyfan, sy'n sefyll yn ôl o'r stryd oherwydd y lloriau caled o'u blaenau. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw yr ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad llain, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd dda, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. O ran unrhyw gynlluniau i ailddatblygu adeiladau neu godi rhai newydd yn eu lle, mae angen dealltwriaeth o'u heffaith a'r modd y gallant helpu i gryfhau'r pwyntiau allweddol hyn. |  |
| 3.3 | Mae'r pwysau o ran y galw am dai yn golygu bod lleiniau yn Stryd y Castell a Stryd Berkeley wedi'u mewnlenwi, yn aml gyda thai y mae eu dyluniad yn annodweddiadol o'r Ardal Gadwraeth, sydd ddim yn ymateb i'w chymeriad. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw'r ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. |  |
| 3.4 | O ganlyniad i allu gweld y tu cefn i Morfa Lane, ynghyd â'r maes parcio, mae mannau sydd wedi'u newid, y byddent fel arfer yn cael eu hanwybyddu, yn cael effaith sylweddol ar dir y cyhoedd, a amlygir gan golli'r waliau terfyn i ymyl y stryd. Mae hyn yn cynnwys gosod grisiau dianc y tu cefn i adeiladau, ynghyd ag estyniadau, a defnyddio deunyddiau cyfoes i greu ffiniau newydd. | Dylid asesu cynigion ar gyfer datblygu yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad a golwg strydoedd cefn a'r tu ôl i adeiladau, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif ffyrdd drwodd. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod yr ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau yr ystyrir y byddant yn achosi niwed. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| **4.0** | **Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol** | | |
| 4.1 | Mae topograffi'r ardal yn golygu y gall toeau gael cryn effaith ar olygfeydd, a gall gosod eitemau fel erialau a dysglau lloeren ar y toeau erydu cymeriad, yn enwedig o ran adeiladau ag iddynt arddull unffurf. | Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4, fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau o'r fath. |  |
| 4.2 | Gall cyflwyno gwaith sy'n ymddangos yn ddibwys gael effaith gronnol ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd, ynghyd â lleoliad yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau a ganlyn:<br>Newid ffenestri er mwyn gosod rhai PVC yn eu lle Cyflwyno gwasanaethau newydd mewn lleoliadau amlwg Gosod dysglau lloeren Colli cafnau dŵr ac ati a wnaed o haearn bwrw Gosod teils coch a theils concrit yn lle llechi Colli simneiau Colli drysau ffrynt coed panelog Colli ffiniau hanesyddol fel rheiliau a waliau rwbel | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y manylion amlwg o safbwynt pensaernïaeth, fel ffenestri, ynghyd â deunyddiau sydd ar gael yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn modd sydd o fudd i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio gynnwys cyngor hefyd ynghylch gwaith ôl-osod mewn adeiladau presennol, i wella eu perfformiad thermol, ynghyd ag ynghylch gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy heb niweidio cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau a restrir, lle bo'n briodol. |  |
| 4.3 | Mae chwipio adeiladau â gro, yn lle'r rendrad calch traddodiadol, wedi cael cryn effaith ar adeiladau a golygfeydd ledled yr Ardal Gadwraeth. | Dylid annog y defnydd o ddeunyddiau traddodiadol fel rendrad calch, a dylid gwrthwynebu ceisiadau ar gyfer cyflwyno mathau amhriodol o blastr a rendrad. | |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| 4.4 | Ymddengys bod gwaith diawdurdod ar adeiladau'n broblem gyffredin, gan gynnwys gwaith fel gosod nodweddion newydd fel ffenestri a drysau yn lle rhai hanesyddol. Mae hyn wedi arwain at erydiad cyson yng nghymeriad rhai rhannau o'r Ardal Gadwraeth. Mae gwneud gwaith diawdurdod yn annog perchnogion eiddo eraill i wneud gwaith tebyg, a gall arwain at effaith gronnol ar raddfa fwy. | Lle'n briodol, dylai'r cyngor geisio camau gorfodaeth i adfer gwaith diawdurdod. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y lliwiau nodweddiadol, manylion o safbwynt pensaernïaeth, fel ffenestri, ynghyd â deunyddiau sydd ar gael yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn modd sydd o fudd i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio gynnwys cyngor hefyd ynghylch gwaith ôl-osod mewn adeiladau presennol, i wella eu perfformiad thermol, ynghyd ag ynghylch gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy heb niweidio cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddydau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau nad oes angen caniatâd ar eu cyfer ar hyn o bryd. |  |
| 4.5 | Ymddengys bod gwaith atgyweirio a chynnal adeiladau wedi'i esgeuluso ledled yr Ardal Gadwraeth, gan fod sawl adeilad mewn cyflwr gwael. Oherwydd natur yr Ardal Gadwraeth, caiff hyn effaith arwyddocaol ar olygfeydd, a gall olygu colli asedau treftadaeth arwyddocaol, yn rhannol neu'n gyfan gwbl. | Cyhoeddi canllawiau ar waith cynnal a chadw ac atgyweirio priodol ar gyfer adeiladau ac adeileddau o fewn yr Ardal Gadwraeth. |  |
| 4.6 | Mae defnyddio'r un lliw ar draws nifer o adeiladau yn golygu bod adeilad yn y gyffordd â Heol yr Orsaf a Stryd y Bont yn edrych yn rhy fawr, ac mae hyn yn tynnu oddi wrth y golygfeydd. Gall dewis lliw amhriodol gael effaith niweidiol ar gymeriad a golygfeydd. | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y lliwiau nodweddiadol (gan gynnwys cyfuniadau cadarnhaol o liwiau a ddefnyddir ar adeiladau cyfagos), manylion o safbwynt pensaernïaeth, fel ffenestri, ynghyd â deunyddiau sydd ar gael yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn modd sydd o fudd i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| **5.0** | **Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd** | | |
| 5.1 | Gall mwy o draffig a diffyg rheolaeth o gynlluniau ffyrdd gael effaith niweidiol ar gymeriad cyffredinol yr ardal, sy’n golygu colli mannau i gael seibiant, ynghyd â mannau i gwrdd â phobl eraill, a fyddai fel arall yn caniatáu i bobl aros am ennyd i fyfyrio a gwerthfawrogi eu hamgylchedd. Hefyd, mae’r nifer annigonol o bwyntiau croesi a phalmantau cul yn gwahanu strydoedd ac yn rhwystro pobl rhag gwerthfawrogi’r adeiladau oherwydd bod dwysedd y traffig yn cuddio lloriau gwaelod. Mae hyn yn arbennig o wir am Stryd y Bont. | Llunio a rhoi strategaeth ar waith yng nghyswllt cyfleoedd ar gyfer creu rhagor o barthau cerddwyr, a gwella cynllun ffyrdd. Bydd y Cyngor yn annog ac yn hybu cynigion i wella cysylltedd ar gyfer beicwyr a cherddwyr, sydd hefyd yn ymgorffori mannau cyhoeddus. |  |
| 5.2 | Mae ‘blerwch’ ar y strydoedd, o ganlyniad i gymaint o arwyddion cyhoeddus, bolardiau, biniau a rhwystrau, yn enwedig ar ymyl ffyrdd, yn gallu creu dryswch, ynghyd â chuddio golygfeydd, ac mae’n tynnu oddi wrth yr amgylchedd ehangach. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog dull cydgysylltiedig i fynd i’r afael â goleuadau, deunyddiau, dulliau trin ffiniau, ynghyd â dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adfer i wella golwg strydoedd, gan gynnwys cael gwared â blerwch, cynnal a chadw mannau sydd angen eu paentio, ynghyd â chyflwyno deunyddiau wyneb a dodrefn stryd priodol. |  |
| 5.3 | Fel arfer, mae ffyrdd, palmantau a dulliau cyfoes o drin ffiniau wedi’u gwneud o ddeunyddiau modern, a gallant dynnu oddi wrth leoliad adeiladau a thir y cyhoedd. Erbyn hyn, mae mannau parcio, lloriau caled a dodrefn priffyrdd wedi cymryd trosodd tir y cyhoedd mewn sawl man allweddol, sy’n gallu gwanio pyrth allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth a’i chyffiniau drwyddi draw. Er enghraifft, y porthdy, Heol y Castell, Heol Fair a’r sgwâr cyhoeddus. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog dull cydgysylltiedig i fynd i’r afael â goleuadau, deunyddiau, dulliau trin ffiniau, ynghyd â dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adfer i wella golwg strydoedd, gan gynnwys cael gwared â blerwch, cynnal a chadw mannau sydd angen eu paentio, ynghyd â chyflwyno deunyddiau wyneb a dodrefn stryd priodol. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| 5.4 | Mae ymagwedd gydgysylltiedig o ran darparu lanternau stryd ac arwyddion stryd o ansawdd uchel o fewn yr hen dref gaerog wedi helpu i uno'r ardal hon, ac wedi dyrchafu ansawdd tir y cyhoedd. Mewn cyferbyniad, mae'r ffyrdd a'r strydoedd i'r de o'r bont yn anghyson, ac o ansawdd wael o safbwynt yr ymagwedd tuag at dir y cyhoedd a'i ddyluniad. | Dylid dylunio arwyddion a dodrefn mewn modd sensitif a'u hintegreiddio o fewn y strydlun. Byddai ymagwedd gydgysylltiedig yn helpu i uno cymeriad yr ardal a dyrchafu ansawdd tir y cyhoedd. Gellid llunio canllawiau pellach ar ddylunio arwyddion a dodrefn stryd yn yr ardal gadwraeth, i sicrhau bod modd cyflawni ymagwedd gyson, o ansawdd uchel.<br><br>Mae yna gyfle i gyflwyno goleuadau stryd mwy traddodiadol, ynghyd â deunyddiau palmant mwy traddodiadol, a rhagor o blanhigion ar y stryd  trwy'r ardal gadwraeth gyfan. |  |
| **6.0 Dulliau trin ffiniau, ynghyd â pharcio** | | | |
| 6.1 | Mae'r cynnydd o ran y galw am fannau parcio ar safleoedd ac ar y stryd wedi arwain at golli dulliau trin ffiniau hanesyddol i ymgorffori lloriau caled a mannau parcio o fewn Stryd y Castell. Gall hyn amharu ar ymyl caled y stryd sy'n nodweddiadol o'r ardal, ynghyd â thorri ar olygfeydd trwy'r Ardal Gadwraeth, ac i mewn ac allan ohoni. | Dylid cefnogi cynlluniau i adfer waliau terfyn traddodiadol. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli waliau terfyn hanesyddol traddodiadol sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr ardal. Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Cyfarwyddiadau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwneud addasiadau i waliau terfyn hanesyddol, waeth pa mor uchel ydynt. |  |
| 6.2 | Gall cyflwyno deunyddiau modern i greu ffiniau newydd a thirweddu caled nad ydynt yn cyd-fynd â'r Ardal Gadwraeth, neu nad ydynt o ansawdd ddigonol, amharu ar gymeriad yr ardal a thorri ar y golygfeydd. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw'r ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd dda, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y manylion amlwg o safbwynt pensaernïaeth, fel ffenestri, ynghyd â deunyddiau sydd ar gael yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn modd sydd o fudd i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth |
|---|---|---|
| **7.0 Dyluniad blaenau siopau** | | |
| 7.1 | Gall cynnwys dyluniadau amhriodol ar flaenau siopau gael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal. Ceir ambell enghraifft o flaenau siopau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth. Yn lle mae'r rhain yn bodoli, maent yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at y strydlun, a gallant ysbrydoli dyluniadau at y dyfodol sy'n adlewyrchu treftadaeth yr ardal. Mae nodweddion sy'n cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd yn cynnwys: | Yn lle mae blaen siop presennol yn cynrychioli enghraifft dda o arddull cynharach sy'n briodol o ran cymeriad yr ardal ac adeilad y siop dan sylw, dylid ei gadw a'i adnewyddu yn hytrach na chael ei ail-wneud o'r newydd. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli blaenau siopau ac arwyddion hanesyddol. O ran gosod blaenau siopau a chanddynt ddyluniad mwy priodol, yn lle rhai modern nad ydynt yn cyd-fynd â'r adeilad, mae gan hyn y potensial i wella golwg adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth yn sylweddol, a dylid cefnogi cynigion o'r fath.  |
| | Diffyg ystyriaeth o'r cysylltiad rhwng y llawr gwaelod a'r adeilad uwchben. Er enghraifft, o ran sicrhau bod baeau o'r un lled, ynghyd â chydnabod manylion pensaernïol ac arddull yr adeilad presennol. | Dylai blaenau siopau sy'n cael eu gosod o'r newydd adlewyrchu graddfa a mesuriadau'r adeilad y maent yn rhan ohono. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion, i gyfleu arfer dda o ran y defnydd o ddeunyddiau a dylunio. |
| | Ffasgiâu mawr, nad ydynt yn gymesur â'r rheiny a geir ar adeiladau cyfagos, neu sy'n rhy fawr ar gyfer ffryntiad yr adeilad, ac yn gorchuddio manylion hanesyddol sy'n goroesi. | Dylai blaenau siopau sy'n cael eu gosod o'r newydd adlewyrchu graddfa a mesuriadau'r adeilad y maent yn rhan ohono. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion, i gyfleu arfer dda o ran y defnydd o ddeunyddiau a dylunio. |
| | Y defnydd o ddeunyddiau neu liwiau cyfoes, amhriodol, fel Perspex, PVC neu alwminiwm, nad yw eu natur adlewyrchol fel arfer yn ategu'r palet o ddeunyddiau a ddefnyddir o fewn yr Ardal Gadwraeth neu ar adeiladau cyfagos. | Dylai blaenau siopau sy'n cael eu gosod o'r newydd adlewyrchu graddfa a mesuriadau'r adeilad y maent yn rhan ohono. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion, i gyfleu arfer dda o ran y defnydd o ddeunyddiau a dylunio. |
| | Colli arwyddion crog traddodiadol. | Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli arwyddion crog traddodiadol. |

| Eitem | Bygythiad | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| **8.0 Golygfeydd a lleoliad** | | | |
| 8.1 | Mae'r mannau gwyrdd presennol at ymyl yr afon yn gofyn am fesurau gwarchodaeth effeithiol a pharhaus, yn enwedig yn ystod gwaith datblygu ac addasu newydd, sy'n cynnwys golygfeydd ar hyd yr afon a thuag at y naill lan i'r afon ac oddi yno. | Dylid mynd ati i gynnal a chadw mannau gwyrdd arwyddocaol, a dylid mabwysiadu prosesau rheoli sy'n sicrhau bod eu diddordeb arbennig, a'u gwerth o safbwynt ecolegol, yn cael eu gwarchod a'u gwella. Ceir cyfle i blannu rhagor o goed a phlanhigion eraill i wella golwg yr ardal gadwraeth, ynghyd â'i photensial o ran bioamrywiaeth, a dylid annog hyn. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr ardal. . |  |
| 8.2 | Mae'n bosibl y bydd effaith datblygiadau ar leoliad Eglwys y Santes Fair a Chastell Cydweli yn sylweddol iawn, o ystyried pwysigrwydd yr ardal. O ran unrhyw ddatblygiadau ar gyrion y safleoedd hyn, neu sydd â chysylltiad gweladwy ar draws y safleoedd neu oddi yno, mae angen eu hystyried a'u rheoli'n ofalus. | Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau yr ystyrir eu bod yn niweidiol.<br>Ni ddylai unrhyw ddatblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth guddio neu dynnu oddi wrth olygfeydd pwysig o fewn yr ardal, i gyfeiriad yr ardal, neu o gyfeiriad yr ardal gadwraeth.<br>O ran cynigion y mae'n bosibl y byddant yn dod o fewn golygfeydd pwysig ac yn effeithio'r golygfeydd hynny sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, ynghyd â'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, dylid eu hasesu'n ofalus.<br>Efallai y bydd angen golygfeydd sydd wedi'u cynhyrchu â chyfrifiadur, ac wedi'u gwirio, sy'n dangos effeithiau posibl cynigion er mwyn egluro'r effaith ar gymeriad a golwg yr ardal neu leoliad yr asedau treftadaeth pwysig hyn. | |
| **9.0 Dymchwel adeiladau a strwythurau** | | | |
| 9.1 | O ran adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymeriad neu olwg yr Ardal Gadwraeth, gall eu dymchwel, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, erydu ansawdd pensaernïol yr ardal. Gall hyn gynnwys adeiladau cyfan ar gyfer gwneud gwaith ailddatblygu, neu rannau o ardaloedd, fel simneiau, waliau terfyn neu estyniadau. | Ceir llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau o werth, nad ydynt yn rhestredig, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth gref y dylid cadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol. | |

| Eitem | Bygythiad | Rheolaeth |
|---|---|---|
| 9.2 | O ran cyflwr gwael adeiladau gwag, neu sydd heb eu cynnal a chadw'n ddigonol, gellir eu defnyddio i ddwyn pwysau ar yr Awdurdod Lleol i'w dymchwel a'u hailddatblygu. Gall hyn greu camddealltwriaeth bod cynllun ailddatblygu ar raddfa fawr yn briodol, pryd y gallai camau gofalus i reoli addasiadau at y dyfodol adfer cymeriad gwreiddiol yr adeiladau hyn, a gwella'r Ardal Gadwraeth, gan osgoi colli'r carbon sydd wedi'i ymgorffori y mae wedi'i ddisbyddu eisoes yn ystod y gwaith adeiladu gwreiddiol. | Yn lle ceir tystiolaeth o esgeulustod bwriadol, neu ddifrod i ased treftadaeth, ni ddylid ystyried cyflwr dirywiedig yr ased wrth wneud unrhyw benderfyniad. Ceir llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau o werth, nad ydynt yn rhestredig, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth gref y dylid cadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion.<br><br>Os cynigir eu dymchwel, dylid ystyried cylch oes gyfan carbon, gan ystyried y carbon sydd wedi'i ymgorffori o ran yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol i gadw ac addasu'r adeilad presennol, yn hytrach na chodi adeilad newydd yn ei le.<br><br>Dylid rhoi anogaeth i ofalu am adeiladau traddodiadol a hanesyddol o fewn yr ardal, a'u hailddefnyddio, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, trwy well gwaith cynnal a chadw, rheolaeth a mesurau effeithlonrwydd ynni. Dylid rhoi anogaeth i adfer nodweddion traddodiadol trwy lunio canllaw dylunio'n benodol ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Rhaid cyflwyno ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol. |
| **10.0** | **Ailddatblygu** | |
| 10.1 | O ran cysondeb o safbwynt uchder lloriau, màs, deunyddiau, manylion pensaernïol, maint lleiniau a'r berthynas â'r stryd, caiff unrhyw wyriad oddi wrth hyn effaith uniongyrchol, yn enwedig yn lle ceir golygfeydd o bell. O ran lle mae'r manylion hyn yn amrywio rhwng y ddwy ardal gymeriad, mae angen cydnabod y nodweddion unigryw hyn hefyd. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw'r ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd dda, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai unrhyw waith ar adeiladau hanesyddol, ynghyd ag addasiadau ac estyniadau, ymateb mewn modd cadarnhaol i arddull pensaernïol gwreiddiol yr adeilad, ynghyd â'i leoliad, a dylai wella ei olwg traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at y Canllaw Creu Lleoedd 2020.  |

| Eitem | Bygythiad | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| **11.0** | **Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol** | | |
| 11.1 | Gall colli nodweddion fel simneiau a chyflwyno toeau dormer newid toeau yn llwyr, a chael effaith niweidiol ar olygfeydd. Mae hyn yn cynnwys ymestyn adeiladau tuag at i fyny i ddarparu uchder ychwanegol ar y lloriau uchaf. | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y manylion o safbwynt pensaernïaeth, fel ffenestri, ynghyd â deunyddiau sydd ar gael yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn modd sydd o fudd i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.<br><br>Dylid ystyried y defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw addasiadau, lle bo'n briodol. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli nodweddion traddodiadol sy'n cyfrannu at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. |  |
| **12.0** | **Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd** | | |
| 12.1 | Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o hanes y dref a phryd bynnag mae'r rhain yn goroesi, dylid eu cynnal. | Gellid cynhyrchu rhagor o ganllawiau ar ddylunio arwyddion yn yr Ardal Gadwraeth ac ymgorffori enwau Cymraeg ar ffyrdd a lleoedd. | |
| **13.0** | **Coed a Thirweddu** | | |
| 13.1 | Mae cyrion gwyrdd a choed yn torri ar nodweddion caled ardal drefol, a gall eu colli wneud niwed sylweddol i gymeriad yr ardal. | Ceir cyfle i blannu rhagor o goed a phlanhigion eraill i wella golwg yr ardal gadwraeth, ynghyd â'i photensial o ran bioamrywiaeth, a dylid annog hyn. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr ardal. |  |
| 13.2 | Gall defnyddio coed, fflora a ffawna estron fod yn groes i'r amgylchfyd os cânt eu dewis heb roi ystyriaeth i'w cyd-destun. | Dylid annog y defnydd o goed, fflora a ffawna brodorol pan gaiff cynlluniau tirlunio meddal eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. | |

| Eitem | Bygythiad | Rheolaeth |
| --- | --- | --- |
| **14.0** | **Dylunio blaenau siopau** | |
| 14.1 | Gall cyflwyno gweithgareddau masnachol o fewn adeiladau preswyl blaenorol achosi niwed fel a ganlyn:<br><br>Cyflwyno arwyddion nad ydynt yn ymateb i fesuriadau neu gynllun yr adeilad.<br><br>Cyflwyno ffenestri blaen siop sy’n rhy fawr ar gyfer graddfa ddomestig yr adeilad, ac yn arwain at golli adeiladwaith gwreiddiol.<br><br>Gall rhannu perchnogaeth greu dryswch o ran gwaith cynnal a chadw, a gall arwain at ddirywiad yr adeilad yn gyffredinol. | Byddai unrhyw gynigion ar gyfer newid defnydd adeiladau presennol yn gofyn am ystyriaeth ofalus o’r effaith ar gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau wedyn i fynediad ar gyfer danfon nwyddau, parcio a gwasanaethau allanol, fel unedau cyddwyso a pheiriannau eraill. Dylid annog defnydd preswyl parhaus mewn strydoedd preswyl hanesyddol. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio.<br><br> |
| | Gosod caeadau diogelwch allanol sy’n gallu cael effaith amlwg ar olwg allanol adeilad, ynghyd â chyfrannu at ymdeimlad o ddiffyg diogelwch. | Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i’r angen i warchod a gwella’r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn caeadau diogelwch amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad a golwg traddodiadol yr ardal. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio. |
| | Cyflwyno adlenni neu ganopïau o faint amhriodol, nad ydynt yn aml o ddeunydd traddodiadol, sy’n torri ar rythm y terasu a’r llinell adeiladu. | Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i’r angen i warchod a gwella’r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion a chanopïau amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad a golwg traddodiadol yr ardal. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio, gan gynnwys sut i ymgorffori adlenni a chanopïau. |

## 15.0 Cyffredinol

15.1 Archaeoleg

Wrth ystyried unrhyw gynnig arwyddocaol ar gyfer datblygiad, dylid mynd ati i asesu'r effaith bosibl ar olion archaeolegol mewn modd proffesiynol, a chael cyngor o ran y modd gorau o'u gwarchod a'u diogelu. Dylid hefyd ystyried sut allai defnydd blaenorol, a hen strwythurau ac adeiladau a arferai fod ar y safle ddylanwadu ar ddylunio elfennau newydd.

15.2 Argyfwng yr Hinsawdd

O ran cynigion ar gyfer gwaith ôl-osod i wella effeithiolrwydd ynni, dylid eu hystyried yn ofalus i sicrhau eu bod yn gydnaws â deunyddiau adeiladu traddodiadol, ynghyd â'u swyddogaeth a'u harwyddocâd.

Os cynigir eu dymchwel, dylid ystyried cylch oes cyfan carbon, gan ystyried y carbon sydd wedi'i ymgorffori o ran yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol, yn hytrach na chodi adeilad newydd yn ei le.
Dylid rhoi anogaeth i ofalu am adeiladau traddodiadol a hanesyddol o fewn yr ardal, a'u hailddefnyddio, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, trwy well gwaith cynnal a chadw, rheolaeth a mesurau effeithlonrwydd ynni.

15.3 Gweithredu ac Adolygu

Mae angen cadw at yr holl ddyletswyddau statudol o dan y Deddfau Cynllunio sy'n deillio o ddynodiad ardal gadwraeth. Dylai'r cyngor fabwysiadu'r argymhellion a wneir yma a llunio cynllun rheoli ffurfiol (bwriedir y bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio'r sail i hwn) a gaiff ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y polisïau'n dal i fod yn ddefnyddiol a pherthnasol. Dylai'r Cyngor geisio ymgymryd ag astudiaethau perthnasol eraill, ynghyd â llunio canllawiau pellach, fel y nodir yma, os oes adnoddau ar gael i wneud hyn.

15.4 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth

Dylid darparu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gan ymgeiswyr, os ystyrir bod cynnig yn effeithio'r ardal gadwraeth (naill ai o fewn y ffin neu ei lleoliad) neu ased treftadaeth oddi mewn iddi.

## 9.0 Cyfleoedd

Mae'r cyfleoedd a ganlyn yn cyfeirio at bosibiliadau a nodwyd o ran dadwneud niwed, gwella'r ardal a'r gwerthfawrogiad ohoni, neu reoli datblygiadau. Nodwyd y rhain trwy baratoi'r ddogfen hon a'r adran yng nghyswllt problemau, bygythiadau a rheolaeth.

1. Gallai'r sgwâr cyhoeddus wrth ymyl yr eglwys fod yn fan cadarnhaol ar gyfer gorffwys a myfyrio ynghylch arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth. Gallai'r defnydd o ffiniau traddodiadol, tirweddu o ansawdd uchel, celfwaith, deunydd dehongli a dodrefn stryd helpu i wella'r ardal er budd ehangach yr Ardal Gadwraeth, ynghyd â rhoi cyfle i bobl gydnabod pam y dynodwyd yr ardal, gan helpu wedyn i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd a gofal o'r ardal.

2. Mae Neuadd y Dref yn adeilad arwyddocaol o safbwynt hanesyddol, mae'n gweithredu fel cyffordd rhwng Heol Fair a Stryd y Bont ac yn ychwanegu golygfeydd trwy'r ardal. Fodd bynnag, mae ei ddiffyg pwrpas a'r diffyg o ran man cyhoeddus o'i gwmpas ar hyn o bryd yn lleihau ei gyfraniad posibl. Gallai ei ailddefnyddio helpu i wella hyn, ond mae angen rheoli effaith unrhyw ddatblygiadau ar ei gymeriad yn ofalus.

3. Mae'r llwybrau a'r golygfeydd o lannau'r afon yn darparu mannau tawel a llawn cymeriad ar gyfer syllu ar yr Ardal Gadwraeth, ac mae'n darparu golygfeydd arwyddocaol. Fel y mae'r cyfle'n codi, gallai cyflwyno deunyddiau cyson o ran y ffiniau, â'r rheiny o ansawdd dda, ynghyd ag arwyddion i ddangos y ffordd, a goleuadau a dodrefn ar gyfer tir y cyhoedd, hybu'r defnydd o'r mannau hyn, gan arwain at ofalu amdanynt yn well.



1



2



3

4. Mae’r porthdy yn adeiledd ag iddo arwyddocâd hanesyddol, ac mae’n dal i ddarparu porth pwysig i mewn i’r dref gaerog hanesyddol. Fodd bynnag, mae cael gwared ag adeiladau ar y stryd wedi gwneud y traffig yn fwy amlwg, wedi creu talcennau gwag, sydd wedi’u gwaethygu gan ddatblygiadau cyfoes a waliau terfyn annodweddiadol ynghyd â chysgodfan fysiau. Gallai cyflwyno adeiladau o ansawdd uchel, tirweddu caled a meddal a/neu gulhau’r ffyrdd, wella’r fynedfa arwyddocaol hon yn sylweddol.


5. Mae’r fynedfa i Heol y Castell yn borth arwyddocaol o safbwynt hanesyddol i mewn i’r hen dref gaerog, ond mae arwyddion traffig a datblygiadau cyfoes yn tynnu oddi wrthi ar hyn o bryd. Gall cynnwys coed ar y stryd, ynghyd ag arwyddion a lanternau traddodiadol, helpu i gysylltu’r fynedfa hon yn ôl gyda’r strydoedd y tu hwnt, a nodweddu ei harwyddocâd hanesyddol. Hefyd, gallai’r capel elwa ar gael cynllun paentio mwy llachar, yn ogystal â thynnu’r rendrad oddi ar y wal derfyn.



4



5




- Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Maes cyfle



# Atodiadau

# Atodiad I: Llyfryddiaeth


**Cyhoeddiadau**

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (legislation.gov.uk)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 well-being-of-future-generations-wales-act-2015-the-essentials.pdf (gov.wales)

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, Chwefror 2021 Planning Policy Wales - Edition 11 (gov.wales)

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Adeiledig, 2017, Polisi Cynllunio Cymru Planning Policy Wales Note 24 May 2017 (gov.wales)

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017 Managing Change in World heritage Sites in Wales (gov.wales)

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw Conservation Principles Doc ENG (gov.wales)

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru, Medi 2021 Microsoft Word - SWW Regional Economic Delivery Plan FINAL (gov.wales)

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021 Report.pdf (gov.wales)

Kidwelly Castle, Kenyon JR, Cadw, 2017

Canllaw Creu Lleoedd 2020 PlacemakingGuideDigitalENG. pdf (dcfw.org)

**Gwefannau**

British Listed Buildings, amryw ddyddiadau, British Listed Buildings - History in Structure, 5ed – 7fed Ebrill 2022

Llyfrgell Cenedlaethol Cymru, 2021, Mapiau Degwm Cymru, Welsh Tithe Maps - Home (library.wales) 5ed - 7fed Ebrill 2022

The National Library of Scotland, 2021, OS Maps of various dates, Map Finder - with Marker Pin - Map Images - National Library of Scotland (nls.uk) 5ed - 7fed Ebrill 2022

Kidwelly Priory, History of the Priory, Kidwelly Priory (kidwellyhistory.co.uk), (Glanmor Williams a Chymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin) 5ed - 7fed Ebrill 2022

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, 2021, The Archaeology of the Medieval Towns of Southwest Wales; Kidwelly, EPRN_125663_KIDWELLY.pdf (dyfedarchaeology.org.uk) 5eg - 7fed Ebrill 2022

Monastic Wales, Kidwelly Priory, Site details: Kidwelly (monasticwales.org) 5ed - 7fed Ebrill 2022

Grace's Guide To British Industrial History, 2020, Kidwelly Tinplate Works, Kidwelly Tinplate Works - Graces Guide 5ed - 7fed Ebrill 2022

Cyngor Tref Cydweli, 2022, Hanes Cydweli, Kidwelly History | Kidwelly Town Council 5ed - 7fed Ebrill 2022

Hanes Cydweli, William Jeffrey Mansel, 2009, Kidwelly History; Research the Ancient Borough in Wales, U.K. 5ed - 7fed Ebrill 2022


## Atodiad II: Geirfa

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| A4D | Cyfarwyd dyd Erthygl 4 | Mesur, a gychwynnir gan awdurdod lleol, lle mae materion gwaith a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan ddeddfwriaeth gynllunio Gorchmynion Datblygu Cyffredinol yn cael eu dwyn o dan reolaeth yr adran gynllunio. |
| BAR | Adeilad Mewn Perygl | Cofrestr adeiladau, a gynhelir gan awdurdodau lleol (a gefnogir gan Historic England) sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau sydd mewn perygl o ddadfeilio, dymchweliad neu golled arall. Fel arfer mae'n nodi rhywfaint o risg ac yn nodi'r math o gamau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i unioni'r broblem. |
| AG | Ardal Gadwraeth | Ardal, a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, y mae ei chymeriad yn ddymunol i'w chadw neu wella |
| GAG | Gwerthusiad Ardal Gadwraeth | Adroddiad sy'n asesu cymeriad ac effeithiolrwydd yr AG ar adeg benodol |
| CPO | Gorchymyn Prynu Gorfodol | Offeryn cyfreithiol ar gyfer prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol neu asiantaeth y llywodraeth ar gyfer diben ddiffiniedig ac am gyfradd deg |
| | Ffasgia | Y gofod ble mae arwydd yn cael ei arddangos, fel arfer uwchben siop |
| CSC | Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| GDO | Gorchymyn Datblygu Cyffredinol | Gorchymyn, o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol, sy'n nodi'r dosbarthiadau o ddatblygiadau sy'n 'ddatblygiad a ganiateir' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol arnynt fel arfer |
| | Cadw | Y sefydliad sy'n gyfrifol am warchod adeiladau, strwythurau, tirwedd a safleoedd treftadaeth hanesyddol yng Nghymru |
| ARh | Adeilad Rhestredig | Adeilad o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol a warchodir trwy ei gynnwys ar restr o adeiladau o'r fath a gynhelir gan Cadw. Bydd yr adeilad yn cael ei raddio – gradd 1 am y pwysicaf, Gradd 2* ar gyfer y pwysicaf nesaf neu radd 2 am y gweddill sy'n cynnwys tua 95% o'r cyfanswm |
| | Llain Tir Bwrdais | Mae llain tir bwrdais fel arfer yn cael ei nodweddu fel llain hir â wal, gardd neu iard, y tu ôl i adeilad, y mae ei flaen yn wynebu un o'r strydoedd hŷn mewn tref neu ddinas â tharddiad canoloesol |

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| LBC | Caniatâd Adeilad Rhestredig | Cymeradwyaeth i wneud gwaith ar adeilad rhestredig (a fyddai fel arall yn drosedd) a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol ac ar ôl ymgynghori â rhestr benodol o gyrff a sefydliadau amwynder cenedlaethol a lleol |
| CLI | Cynllun Lleol | Dogfen a baratowyd gan neu ar ran yr awdurdod lleol yn nodi ei bolisi cynllunio am gyfnod penodol i ddod; bydd yn cynnwys polisi ynghylch yr amgylchedd naturiol, cadwraeth, priffyrdd, datblygu adeiladau ymhlith ystod eang o bynciau eraill. |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru | Polisi cenedlaethol yn amlinellu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio |
| Deddf P(LBCA) 1990 | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Deddf gydgrynhoi a ddaeth â darnau amrywiol blaenorol ynghyd o ddeddfwriaeth mewn un Ddeddf Seneddol |
| | Hysbysiad Atgyweirio | Hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf P(LBCA) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion neu feddianwyr wneud atgyweiriadau brys i adeiladau rhestredig |

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| Sn215 | Hysbysiad Adran 215 | Hysbysiad o dan y deddfau cynllunio y gall awdurdod lleol ei roi i berchnogion neu ddeiliaid ar gyfer tacluso tir neu adeiladau y bernir eu bod yn niweidiol i amwynder ardal |
| SPG | Canllawiau Cynllunio Atodol | Dogfen sy'n nodi polisi penodol i safle neu ardal y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio perthnasol. Bydd cynnwys y ddogfen wedi'i baratoi gyda'r bwriad penodol hwn a bydd angen ei fabwysiadu'n ffurfiol fel un o'i gyfres o ddogfennau cynllunio gan yr awdurdod dan sylw |
| TPO | Gorchymyn Cadw Coed | Gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i warchod coed penodol, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder. Mae gorchymyn yn gwahardd torri, tocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol a dinistrio coed yn fwriadol heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol |

# Atodiad III: Mapiau





ALLWEDD: Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli

Ardal Gadwraeth Cydweli

Map o'r Ffiniau

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377




G


0 20 40 100
Graddfa m

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:
- Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Adeiladau rhestredig Gradd I
- Adeiladau rhestredig Gradd II*
- Adeiladau rhestredig Gradd II
- Henebion Cofrestredig
- Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yng Nghymru
- Adeiladau a strwythurau pwysig heb eu rhestru

Ardal Gadwraeth Cydweli

Map o'r Dynodiadau





ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Ardaloedd sy'n cynnig ymdeimlad o le
- Ardaloedd sy'n cynnig naws gaeëdig
- Mannau gwyrdd cadarnhaol / wedi'u tirlunio / coed
- Toeau arwyddocaol
- Y prif dirnod, adeiladau a strwythurau allweddol
- Meindwr
- Golygfeydd pwysig o'r dirwedd
- Golygfeydd pwysig o'r stryd
- Golygfeydd terfynedig
- Golygfeydd allwyredig

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

**Ardal Gadwraeth Cydweli**

Dadansoddi Gofodol




G


0 20 40 100
Graddfa m

ALLWEDD:
- Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau i gerddwyr
- Nodwedd hanesyddol o'r treflun
- Blaen siop hanesyddol
- Celfi stryd

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Ardal Gadwraeth Cydweli

Llecynnau Cyhoeddus




G

0 20 40 100

Graddfa m

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:
- Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau gwyrdd
- Gerddi preifat/lled-breifat
- Coed
- Grŵp o goed


**Ardal Gadwraeth Cydweli**

Coed, Mannau Gwyrdd, Parciau a Gerddi

# Atodiad IV: Adolygiad Ffiniau

Fel rhan o baratoi'r Gwerthusiad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth, ymgymerwyd ag adolygiad o ffin yr Ardal Gadwraeth er mwyn deall y rhesymeg dros ddynodi'r ardal, a ph'un a ddylid ail-lunio'r ffin hon bellach o ganlyniad i ddatblygiadau ers ei dynodiad cychwynnol. Ymgymerwyd â'r adolygiad hwn trwy gyfres o arolygon safle, yn ogystal ag ymchwil bwrdd gwaith ac ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Cynigir y dylid gwneud tri addasiad i Ardal Gadwraeth Cydweli, y nodir y tri ohonynt ar y map a ganlyn. Nodir y lleoliadau a'r rhesymau dros yr addasiadau hyn isod:




Ffiniau Ardal Gadwraeth Cydweli

Y newid arfaethedig 1

Y newid arfaethedig 2

Y newid arfaethedig 3

**Ardal 1 – Capel Bedyddwyr Siloam**

*Estyniad i'r ffin gyfredol*

Nid yw prif wedd y capel wedi'i chynnwys yn yr Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd, er bod y tu cefn i'r adeilad yn alinio â'r ffin gyfredol. Y gyffordd hon yw lleoliad y porth hanesyddol i mewn i'r dref gaerog, a dyma'r fynedfa i gerddwyr a thraffig i mewn i'r castell. Mae'r capel yn dirnod pwysig hefyd, ac yn rhan o hanes sefydlu cymunedau crefyddol o fewn y dref. Byddai ei gynnwys yn helpu i ailuno ffiniau'r dref gaerog hanesyddol, ynghyd â sicrhau bod unrhyw waith o ran datblygu neu ailddatblygu'r capel yn ystyried eu heffaith ar yr Ardal Gadwraeth.



**Ardal 2 – Cofgolofn y Rhyfel, y lladd-dy, a'r dirwedd amgylchynol**

*Estyniad i'r ffin gyfredol*

Nid yw cofgolofn y rhyfel wedi'i chynnwys ar hyn o bryd, ond ohoni'i hun, ynghyd â'i chyfraniad posibl tuag at olygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth, ynghyd â'r fynedfa i'r porthdy, mae'n fwy arwyddocaol o ran ei budd o safbwynt yr Ardal Gadwraeth. Mae'r ddau ddatblygiad cyfoes i'r de ohoni'n tynnu oddi wrthi ar hyn o bryd, ond byddai eu cynnwys yn sicrhau bod unrhyw ailddatblygu yn y dyfodol yn adlewyrchu nodweddion yr ardal hon ac yn helpu i ddyrchafu'r fynedfa i'r porthdy. Nid yw'r lladd-dy adfeiliedig wedi'i gynnwys ar hyn o bryd, er y cynhwyswyd dehongliad ohono i egluro ei arwyddocâd o ran hanes y dref. Fel y cyfryw, cynigir y dylid ei gynnwys er mwyn ei ailuno o fewn craidd y dref hanesyddol. Mae'r lladd-dy a chofgolofn y rhyfel yn elwa ar olygfeydd o'r dirwedd tuag at allan, sy'n nodwedd arwyddocaol o'r ardal, a byddai gwarchod y golygfeydd hyn, a rheoli datblygiadau at y dyfodol, o fudd ehangach i'r Ardal Gadwraeth.





## Ardal 3 – Stryd y Sarn

*Estyniad i'r ffin gyfredol*

Nid yw'r adeiladau gyferbyn â Neuadd y Dref, sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif, wedi'u cynnwys ar hyn o bryd. Mae eu heffaith ar y fynedfa i mewn i'r Ardal Gadwraeth, ac ar Neuadd y Dref, yn bwysig, a dylid ystyried hyn os caiff Neuadd y Dref ei haddasu at ddibenion gwahanol, a phryd y byddai hynny'n digwydd.



Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn nodi'r gofynion a ganlyn:

- Local planning authorities to determine areas where it is desirable to preserve and enhance, and designate them as conservation areas (adran 69 **[1]**)
- Local planning authorities to review their past activities in this area, including existing conservation areas, and to add more conservation areas (adran 69 [2])
- Local planning authorities to formulate and publish proposals for the preservation and enhancement of conservation areas and consult the public in the area in question, taking account of views expressed (adran 71 [1 a 2])
- In the exercise by local planning authorities of planning functions within the conservation area 'special attention shall be paid to the desirability of preserving or enhancing the character or appearance of that area' (adran 72 [1])

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo llesiant. Mae'n rhaid iddynt nodi a chyhoeddi amcanion llesiant a ddylunnir i sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint ag y bo modd tuag at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Un o'r nodau hyn yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', ac fe'i disgrifir fel 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg'. Ceir synergedd clir rhwng y ddyletswydd benodol i warchod neu wella ardaloedd cadwraeth, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 1990, ynghyd â'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo a gwarchod treftadaeth, fel y nodir yn Neddf 2015. Gall ardaloedd cadwraeth a gaiff eu gwarchod a'u gwella'n briodol wella ansawdd bywyd a llesiant i bawb.

Polisi Cynllunio Cymru, Chwefror 2021

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol a elwir, gyda'i gilydd, yn asedau hanesyddol. Ystyrir ardaloedd cadwraeth yn asedau hanesyddol.
- Mae paragraff 6.1.6 yn nodi bod amcanion penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn ceisio: [...] diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus.
- Mae paragraff 6.1.14 yn nodi y dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad. Mae angen rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn diogelu neu wella eu cymeriad a'u golwg a gwireddu eu gwerth treftadaeth yn llawn. Dylai awdurdodau cynllunio lunio eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth hen a/neu newydd a'u ffiniau. Gall paratoi gwerthusiadau a chynlluniau rheoli ar gyfer ardaloedd cadwraeth gynorthwyo awdurdodau cynllunio i arfer eu swyddogaethau rheoli datblygiadau.
- Mae paragraff 6.1.15 yn nodi bod rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir diystyru'r rhagdybiaeth o blaid gwaith datblygu yr ystyrir ei fod yn ddymunol ar sail buddiant cyhoeddus.
- Mae paragraff 6.1.16 yn nodi y gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy ' n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu nad yw'n amharu arnynt. Gellir ystyried mesurau lliniaru hefyd, a allai olygu bod datblygiad arfaethedig yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol mewn ardal gadwraeth.
- Mae paragraff 6.1.17 yn nodi bod dynodi ardaloedd cadwraeth yn golygu y gellir rheoli'r gwaith o ddymchwel adeiladau anrhestredig o fewn yr ardaloedd hyn yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeiladau yn rhannol. Mae'r gweithdrefnau fwy neu lai yr un peth â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Wrth ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach y gwaith dymchwel ar yr ardal o amgylch yr adeilad ac ar ddiddordeb pensaernïol, archaeolegol neu hanesyddol yr ardal gadwraeth yn gyffredinol. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylid profi cynigion yn unol â gwerthusiadau o ardaloedd cadwraeth, lle maent ar gael.
- Mae paragraff 6.1.29 yn nodi y dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisïau penodol i'r ardal leol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid iddynt fod yn unigryw ac ymwneud yn unig â'r elfennau treftadaeth hynny sy'n cael eu gweld fel ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol. Gall gynnwys polisïau penodol i'r ardal leol yn ymwneud ag:
- Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliad. Gallant hefyd gynnwys

- polisïau sy'n ymwneud ag ailddefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/ neu adeiladau hanesyddol penodol, a allai fod o gymorth i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac ymestyn ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylai'r broses o asesu, diffinio'n fanwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol gael ei dilyn ar wahân i'r cynllun datblygu.
- Mae paragraff 1.36 yn nodi bod gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyrraeth o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio lleol ar fater sy'n gyfrifoldeb iddo ef yn y lle cyntaf, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid cyfiawnhau hynny. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai camau o'r fath gael eu hystyried dim ond lle bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio pwerau diofyn Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017, Polisi Cynllunio Cymru

Mae'r ddogfen hon yn nodi:

- Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth a nhw sy'n cadw'r wybodaeth ddiffiniol am eu ffiniau.
- Gall awdurdod cynllunio lleol ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ategol i'w helpu i gyflawni polisïau yn y cynllun datblygu lleol. Gallai canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pynciau fel: Cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth.
- Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol nodi 'areas of special architectural or historic interest, the character or appearance of which it is desirable to preserve or enhance' a'u dynodi fel ardaloedd cadwraeth. Dylent adolygu eu hardaloedd o bryd i'w gilydd i ystyried p'un a oes angen rhagor o ddynodiadau neu ddiwygiadau. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau hefyd i ddynodi ardaloedd cadwraeth ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Mae hon yn bŵer wrth gefn y'i defnyddir mewn achosion eithriadol, er enghraifft, lle bo'r diddordeb mewn ardal yn fwy na hynny ar lefel leol.

6.2 Mae dynodi ardaloedd cadwraeth yn sail i bolisïau y bwriedir iddynt ddiogelu neu wella pob agwedd ar gymeriad neu olwg sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal: gallai hyn gynnwys y patrwm anheddu neu'r modd y mae gofod a llwybrau wedi'u trefnu, yn ogystal ag arddull yr adeilad a'r math o adeilad, y deunyddiau a ddefnyddiwyd, a manylion yr adeilad. Gall seilwaith gwyrdd hefyd fod yn bwysig, ond nid yw dynodi ardaloedd cadwraeth yn debygol o fod yn ffordd briodol o warchod nodweddion tirwedd, oni bai eu bod yn rhan annatod o'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

6.3 O bryd i'w gilydd mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli. Yn unol â'r arfer gorau, dylid gwneud hyn bob pump i ddeng mlynedd. Mae'n arfer da i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllawiau cynllunio atodol.

Mae'n rhaid iddynt hefyd roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth wrth iddynt wneud penderfyniadau cynllunio. O dan amgylchiadau eithriadol, os nad yw ardal gadwraeth neu ran ohoni yn meddu ar y diddordeb arbennig a arweiniodd at ei dynodi mwyach, ceir addasu neu ddileu'r dynodiad hwnnw.

6.4 Mae gwerthusiad o ardal gadwraeth yn sail i unrhyw gynigion ar gyfer ei diogelu a'i gwella. Mae'n rhoi darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a all fod yn sail i gynllun rheoli manylach. Dylai hefyd gynnwys dadansoddiad o anghenion polisi a rheoli'r ardal, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd y rheolaethau cynllunio presennol a'r angen am fesurau gwarchod atodol, a dylai nodi ffyrdd o ddiogelu neu wella cymeriad arbennig. Bydd sail gadarnach i bolisïau mewn cynlluniau datblygu lleol ac i benderfyniadau rheoli datblygu sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth, a byddant hefyd yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol at nodau hirdymor, os diffinnir cymeriad pob ardal gadwraeth ac os nodir polisïau ar gyfer ei diogelu a'i gwella yn fanwl mewn cynllun rheoli. Gellir hefyd ystyried a ddylid cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn yr ardaloedd hyn.

6.5 Mae gan ardaloedd cadwraeth, o ran eu natur, sawl rhanddeiliad a dylai trefniadau rheoli gynnig cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau.

Bydd cynigion ar gyfer diogelu a gwella hefyd yn fwyaf effeithiol pan fydd holl adrannau'r cyngor yn deall pwysigrwydd dynodi ardaloedd cadwraeth ac yn cydweithio. Felly, argymhellir yn gryf y dylid mabwysiadu dull tîm datblygu sy'n cydnabod cyfraniad adrannau eraill, megis yr adran briffyrdd a'r adran dai.

6.6 Gall cynlluniau datblygu lleol gynnwys polisïau penodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth. O dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r cynllun datblygu lleol nodi'n glir y bydd cynigion datblygu'n cael eu barnu yn ôl eu heffaith ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth fel y'i nodir yn y ddogfen arfarnu a rheoli. Bydd angen paratoi datganiad dylunio a mynediad ar gyfer cynigion datblygu penodol o fewn ardal gadwraeth, gan gynnwys darparu un neu fwy o anhedd-dai neu ddarparu adeilad neu adeiladau lle bo'r arwynebedd llawr sy'n cael ei greu gan y datblygiad yn 100 o fetrau sgwâr neu'n fwy.

6.7 Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canol masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol, bydd pwyslais ar reoli newid mewn ffordd gadarnhaol sy'n hybu bywiogrwydd economaidd a bywyd cymdeithasol a diwylliannol ac sy'n cyd-fynd â nodweddion pensaernïol a hanesyddol arbennig ardal. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad cadarnhaol neu sy'n amharu ar gymeriad neu olwg yr ardal; dylai'r broses o'u dileu er mwyn gwneud lle i ddatblygiadau newydd ysgogi gwaith cynllunio dychmygus, o safon uchel a chynnig cyfle i wella'r ardal.

6.8 Un o ddibenion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae'n rhesymol disgwyl i ddyletswydd yr awdurdod cynllunio lleol i roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth olygu, yn ymarferol, ei fod yn gosod safonau llymach pan fydd yn ystyried a ddylid rhoi cydsyniad ar gyfer hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath.

6.9 Mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio lleol fod yn hyblyg o ran y defnydd a wnânt o'u pwerau o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, am fod llawer o ardaloedd yn cynnwys eiddo manwerthu a masnachol sy'n amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus. Mae hysbysebu awyr agored yn hanfodol i weithgarwch masnachol ac fel arfer, bydd llwyddiant busnesau lleol yn helpu perchenogion a thenantiaid eiddo masnachol i sicrhau bod adeiladau mewn cyflwr da ac yn edrych yn ddeniadol.

6.10 Mae angen cael cydsyniad ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, ond ceir rhai eithriadau. Yn y cyd-destun hwn, mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod dymchwel yn gyfystyr â thynnu adeilad i lawr fel ei fod wedi'i ddinistrio'n gyfan gwbl, neu o leiaf i raddau helaeth iawn. Felly, gallai gwaredu adeilad cyfan ac eithrio ei ffasâd hefyd gyfrif fel gwaith dymchwel.

6.11 Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo nad oes angen cydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer disgrifiadau penodol o adeiladau ac mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo nad oes angen cydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer darnau penodol o waith. Mae'r darnau hyn o waith yn cynnwys dymchwel adeilad â chyfanswm cynnwys ciwbig nad yw'n fwy na 115 o fetrau ciwbig a dymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n llai nag un metr o uchder ac sy'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu le agored, neu sy'n llai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Mae hyn yn golygu na fydd llawer o ddarnau o waith sy'n cynnwys dymchwel ffabrig rhan o adeilad yn waith dymchwel ac na fydd cydsyniad ardal gadwraeth yn ofynnol ar eu cyfer.

6.12 Rhaid i geisiadau am gydsyniad i ddymchwel adeilad gael eu gwneud i'r awdurdod cynllunio lleol. Ar gyfer Ceisiadau am Gydsyniad Ardal Gadwraeth, bydd angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth, a ddylai esbonio pam mae dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol, ynghyd ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu olwg yr ardal.

6.13 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylid asesu cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath yn unol â'r un meini prawf cyffredinol ag a ddefnyddir i asesu cynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler 5.15). Mewn achosion lle y tybir nad yw adeilad yn gwneud fawr ddim cyfraniad, os o gwbl, bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol, fel arfer, gael gwybodaeth lawn am yr hyn a gynigir ar gyfer y safle ar ôl dymchwel yr adeilad. Ni ddylid rhoi cydsyniad i ddymchwel

adeilad heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddefnyddio'r safle, oni bai bod ailddatblygu, ynddo ei hun, yn annymunol. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol yr hawl i ystyried egwyddorion cyffredinol datblygiad arfaethedig, megis ei raddfa, ei faint a'i fàs, wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.

6.14 Gall fod yn briodol gosod amod wrth roi cydsyniad i ddymchwel adeilad anrhestredig fel na fydd yn digwydd nes i ganiatâd cynllunio llawn gael ei roi a nes i gontract ar gyfer gwneud y gwaith datblygu gael ei lunio.

6.15 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y pŵer i warchod coed a choetiroedd drwy wneud gorchmynion diogelu coed. At hynny, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion diogelu coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n bwriadu torri, blaendorri neu frigdorri coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod yr amser hwnnw, gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid gwarchod y goeden honno drwy wneud gorchymyn diogelu coed.

6.16 Wrth ystyried a ddylid gwarchod coed mewn ardaloedd cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol a hanesyddol coed a'u cyfraniad at amwynder. Mewn rhai achosion, gall gwaith plannu newydd neu waith ailblannu fod yn ddymunol pan fyddai'n gydnaws â chymeriad neu olwg yr ardal.

6.17 Mae gan waith gorfodi rôl allweddol i'w chwarae o ran gwarchod ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol, gan gynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau rheolaethau rheoleiddiol, yn hytrach na dim ond ymchwilio pan wneir cwyn ffurfiol. Bydd ymagwedd gadarnhaol a gweithredol at waith gorfodi yn helpu i leihau nifer yr achosion o dorri rheoliadau ac i sicrhau gwelliannau parhaol i ansawdd amgylcheddol.

6.18 Mae gan ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol gan awdurdod cynllunio lleol, neu os bydd awdurdod cynllunio lleol yn methu â gwneud penderfyniad, ynghylch cais am gydsyniad ardal gadwraeth. Gellir cyflwyno apêl o dan amgylchiadau gan gynnwys y canlynol: Os bydd awdurdod cynllunio lleol: Yn gwrthod cais am gydsyniad ardal gadwraeth; Yn caniatáu cais am gydsyniad ardal gadwraeth yn ddarostyngedig i amodau; Yn gwrthod cais i amrywio neu ddiddymu'r amodau a osodwyd ar gydsyniad ardal gadwraeth; Yn gwrthod cais am gymeradwyaeth sy'n ofynnol o dan amod a osodwyd ar adeg caniatáu cydsyniad ardal gadwraeth; neu Yn methu â phenderfynu ar gais am gydsyniad o fewn wyth wythnos iddo gael ei ddilysu gan yr awdurdod cynllunio lleol.

6.19 Caiff apêl ei gwneud i Weinidogion Cymru ar ffurflen o fewn chwe mis i'r dyddiad yr hysbysir yr ymgeisydd am benderfyniad yr awdurdod cynllunio leol.

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol a'u gwella er mwyn diogelu a gwella eu cymeriad a'u golwg. Dylai hefyd helpu awdurdodau cynllunio lleol i ystyried Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth) Cadw er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel.

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants